# tafod elái

MEHEFIN 2023

Rhif 378

Pris £1


## Eisteddfod Genedlaethol 2024
## Pwyllgor Codi Arian a Chodi Hwyl Taf

Nawr bod y rhestr testunau yn barod, mae ein golygon yn troi at y gwaith o godi arian a chodi hwyl. Mae cyfarfodydd eisoes wedi'u cynnal yn y Rhondda a Chwm Cynon a thro Taf fydd hi nos Fercher, 7 Mehefin yn Amgueddfa Pontypridd am 6yh. Dewch draw i ddechrau trafod syniadau codi arian a thrafod sut gallwn ni greu bwrlwm yn yr ardal.

**Gŵyl Cyhoeddi**

Byddwn ni'n cyhoeddi yn lleol ac yn genedlaethol bod yr Eisteddfod yn dod i Rhondda Cynon Taf ddydd Sadwrn, 24 Mehefin yn Abderdâr. Bydd gorymdaith yn dechrau ac yn gorffen y tu allan i Ganolfan Hamdden Sobell, Aberdâr, gyda Seremoni'r Cyhoeddi ei hun am 15:00 yn Stadiwm Ron Jones. Bydda i'n cael y fraint o gyflwyno'n rhestr tesunau i'r Archdderwydd, Myrddin ap Dafydd. Diolch i gymaint ohonoch am eich gwaith yn rhoi'r testunau at ei gilydd.

Bydd rhai gweithgareddau yn y bore: Sadwrn Siarad i siaradwyr newydd rhwng 10.30am ac 1pm yn Ysgol Gymunedol Aberdâr. Dylid cysylltu â fi (prosserh@btinternet.com) am fanylion llawn.

Taith gerdded i ddysgu am hanes yr Eisteddfod yn Aberdâr yng nghwmni D Leslie Davies a fydd yn dechrau ac yn gorffen yn Eglwys Sant Ioan. Mae'r daith yn dechrau am 10.30am a gellir cofrestru yma: https://eisteddfod.cymru/2024-taith-gerdded-cyhoeddi. Cyntaf i'r felin.

Rydyn ni'n chwilio am dîm o wirfoddolwyr i'n helpu ni ar y dydd. Byddwn angen criw o wirfoddolwyr lleol i'n helpu ni i dywys yr orymdaith ar hyd strydoedd y dref, ac i stiwardio os yw'r tywydd yn wael, a ninnau'n gorfod cynnal y seremoni yng Nghanolfan Hamdden Sobell. Ac os ydych chi'n fore -godwr, dewch i'n helpu ni i baraotoi Cylch yr Orsedd ar gyfer y seremoni yn y bore. Defnyddiwch y ffurflen hon i wirfoddoli, https://eisteddfod.cymru/2024-cyhoeddi a byddwn yn anfon manylion llawn at bawb sy'n cofrestru.

Ar nos Sul, 25 Mehefin cynhelir Cymanfa Ganu'r Cyhoeddi yn Tabernacl Efail Isaf am 6pm. Eilir Owen Griffiths fydd yn arwain a chodir £5 ar y drws. Bydd Côr Godre'r Garth yn cyflwyno eitemau yn ystod y Gymanfa.

Mae gwybodaeth am gyfrannu i'r Eisteddfod ar dudalen 11.

Dewch yn llu i gyhoeddi ein Steddfod ni.

Helen Prosser
(Cadeirydd Pwyllgor Gwaith
Eisteddfod Rhondda Cynon Taf)







## Symud i Bontypridd

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi penderfynu symud ei bencadlys o'r Clydach yn y Rhondda i ganol tref Pontypridd. Penderfynwyd gwneud hyn mewn ymateb i newidiadau yn y ffordd o weithio ac i wireddu arbedion pwysig i fynd tuag at wasanaethau rheng flaen. Mae'r cynigion yn cynnwys gwagio chwe swyddfa bresennol y Cyngor – Adeilad 'PSSO' Cwm Rhondda yn Nhonypandy, Swyddfeydd y Cyngor ym Mhentre, Tŷ Trevithick yn Abercynon, Rock Grounds yn Aberdâr, y Pafiliynau yng Nghwm Clydach a Thŷ Sardis (lloriau 2-6) ym Mhontypridd. Byddai'r cynigion hefyd yn darparu lleoliad strategol ar gyfer datblygu ysgol arbennig newydd.

Byddai'r newidiadau yma'n gwireddu arbedion o bron i hanner miliwn o bunnoedd y flwyddyn i gyllideb y Cyngor, wrth ddiogelu a gwella gwasanaethau hanfodol.

Hefyd mae Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi prynu nifer o safleoedd yng nghanol y dref ac wedi cyhoeddi eu bwriad i ddymchwel yr hen siopau Burton a Marks and Spencer a chreu gofod newydd fydd yn agored i'r afon.









Torfeydd ym Mharti Ponty, 13 Mai

tafod elái

**GOLYGYDD**
**Penri Williams**
**029 20890040**

**CYHOEDDUSRWYDD**
**Colin Williams**
**029 20890979**

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Gorffennaf
i gyrraedd erbyn
30 Mehefin 2023

**Y Golygydd**
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
**e-bost**
pentyrch@tafelai.com

*Tafod Elái ar y wê*
**http://www.tafodelai.cymru**

*Argraffwyr:*
EVANPRINT
www.evanprint.co.uk

CYMRAEG
*Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru*

Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

**Andrew Reeves**

Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes

Ffoniwch


Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw waith addurno

# PONTYPRIDD

**Gohebydd y mis: Menna Lewis**

**Merched y Wawr**
Ein hymwelydd y mis yma oedd yr hanesydd poblogaidd Dean Powell o Lantrisant. Cafwyd noson hynod o ddiddorol yn sôn am yr actor enwog o'r Rhondda, sef Glyn Houston a'i frawd Donald. Dean Powell yw awdur hunangofiant Glyn Houston sef 'A Black and White Actor'. Roedd Dean yn ffrind personol i Glyn Houston a chydweithiodd y ddau ar y bywgraffiadur diddorol hwn, sy'n sicr yn werth ei ddarllen. Fe glywn am ei fagwraeth yn y Rhondda a sut daeth e a Donald yn enwog yn y maes actio ac adloniant, yn y byd ffilmiau a theledu.




Mae Dean yn adnabyddus fel newyddiadurwr, siaradwr gwadd, darlledwr ac awdur. Mwynhaodd ein haelodau yn fawr. Diolch Dean!



Cynhelir ein cyfarfod mis nesaf ar nos Iau Mehefin 8fed. Byddwn yn gwahodd yr aelodau i ddweud storiau doniol, storiau nad oes neb yn gwybod amdanynt! Hefyd bydd rhan o'r noson yn cynnwys cyfarfod blynyddol. Noson bwysig yng nghalendr y gangen!

**Parc Ynysangharad**
Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi cytuno i ddatblygu mannau gwyrdd Parc Ynysangharad, er mwyn gwella'r amgylchfyd a chynng mwy o gyfleoedd i bobl wneud y defnydd gorau o'r parc. Mae'r adeilad neuadd gweithgareddau bron bellach wedi ei orffen, ynghyd â gwella'r llwybrau cerdded, gwella'r system goleuo a datblygu 'r ardal newid yn y Lido. Yn y dyfodol bwriedir gwella a chynyddu'r nifer o lwybrau cerdded, meinciau eistedd a thyfu mwy o goed. Bwriedir hefyd wella'r ardal i gyfeiriad Llys Cadwyn drwy greu ardal ar gyfer prif ddigwyddiadau. Mae'r Cyngor eisioes wedi gwneud ceisiadau am sawl grant er mwyn ariannu'r prosiectau hyn a fydd yn barod erbyn Haf 2024.

**Parti Ponty**
Llongyfarchiadau i Menter Iaith Rhondda Cynon Tâf ar lwyddiant achlysur blynyddol Parti Ponty ym Mharc Ynysangharad. Dechreuodd y penwythnos gyda Tara Bandito yn diifyrru'r gynulleidfa, rhai yn eistedd a'r gweddill yn gwrando arni ym mhwll twym y Lido. Roedd y tywydd yn braf a'r parc yn odidog a'r achlysur yn llawn bwrlwm. Ar y diwrnod canlynol cafwyd eitemau gwych gan ysgolion Cymraeg a lleol yr ardal, bandiau lleol, a grwpiau dawnsio o dan arweiniad medrus Martyn Geraint. Mwynhaodd y plant lu o weithgareddau, ac roedd digon o stondinau bwyd a diod i gadw pawb yn hapus.



Yn dilyn gweithgareddau'r dydd cafwyd noson o adloniant yng Nghlwb y Bont gyda Catsgam, Cleif Harpwood a Geraint Cynan. Braf oedd mynd nôl mewn amser a chlywed caneuon poblogaidd Edwrd H megis Ysbryd y Nos,Pishyn, Mr Duw a Cân yn Ofer. Penwythnos gwych!



**Clwb Llyfrau**
Mae'r Clwb Llyfrau yn cwrdd bob mis yn Llyfrgell Pontypridd. Byddant yn cwrdd nesa ar Ddydd Mercher 14eg, ac yn trafod y llyfr 'Llyfr y Flwyddyn' gan Mari Emlyn.

Colofnydd mis Gorffennaf yw Jayne Rees.

# PENTYRCH

*Gohebydd Lleol:*
*Marian Wynne*

**Clwb y Dwrlyn**



Deuawd offerynnol fu'n diddanu Clwb y Dwrlyn ar nos Iau Mai 11eg sef June (Mehefin) ar yr acordion ac Ann (Telyn) ar y delyn. Â'r ddwy yn aelodau o Gôr Hen Nodiant gwnaethant benderfynu rhai blynyddoedd yn ôl i gyfuno eu doniau a chynnal perfformiadau acordion a thelyn. Erbyn hyn maent wedi hen sefydlu eu hunain ac roedd y Clwb yn edrych ymlaen at gynnal noson yn eu cwmni.

Cyflwynwyd nifer o drefniannau o ganeuon gwerin a buan y swynwyd y gynulleidfa gan fedrusrwydd yr offerynwyr a'r modd yr oedd y ddau offeryn yn asio'n soniarus. Ychwanegwyd at y mwynhad gan sylwadau diddorol Mehefin ac Ann wrth gyflwyno'r eitemau gan gynnwys disgrifiad Mehefin o rinweddau a heriau'r acordion.

Roedd y gymeradwyaeth yn dweud y cyfan. Diolch i Mehefin ac Ann am noson hynod gofiadwy.

**Meddygfa a Fferyllfa'r Pentref**

Mae'r frwydr i gadw'r feddygfa a'r fferyllfa yn y pentref yn parhau ac yn ddiweddar cerddodd nifer o'r pentrefwyr o Bentyrch i Rydlafar ar hyd y lôn gefn cul i dynnu sylw at y bwriad i adleoli'r cyfleusterau hyn ar lain werdd o dir yn Rhydlafar ger Ffordd Llantrisant. Ymgasglodd dros gant o bobl yno i glywed areithiau gan gynghorwyr sir a chynrychiolwyr lleol yn mynegi pryder am y sefyllfa a chefnogi'r ymgyrch i wrthwynebu bwriad y Cyngor. Asgwrn y gynnen yn ôl y gwrthwynebwyr yw diffyg cyfathrebu ar ran y Bwrdd Iechyd, diffyg trafnidiaeth gyhoeddus o Bentyrch i'r safle arfaethedig, safle anaddas heb ddigon o le parcio a'r ffaith bod Pentyrch yn colli gwasanaethau gwerthfawr.



**Merched y Wawr**

Cynhaliwyd cyfarfod mis Mai yn y Clwb Rygbi a daeth Mati Roberts atom i sôn am y cwmni Matico. Nyrs yw Mati wrth ei galwedigaeth ond erbyn hyn mae'n rhannu ei hamser rhwng ei dyletswyddau meddygol a'r gwaith o greu nwyddau lliwgar i'w gwerthu i ariannu ysgol yn Ghana. Mae cefndir y fenter yn ddiddorol.

Ar ymweliad â Ghana ar brosiect iechyd sylwodd ar decstilau llachar yn y siopau a deall bod eu gwerthiant wedi gostwng yn sylweddol oherwydd bod dillad o'r gorllewin yn cael eu hanfon i'r wlad dan gynllun ailgylchu. Sbardunodd hyn hi i brynu llwyth o'r deunyddiau er na wyddai ar y pryd beth i wneud â nhw. Gyda'i diddordeb mewn tecstilau penderfynodd droi ei llaw at greu nwyddau lliwgar i'w gwerthu er mwyn helpu addysgu plant y wlad a dyma sefydlu cwmni Matico. Gyda chymorth un o'r brodorion yn Ghana oedd yn ffrind ac yn adeiladydd wrth ei alwedigaeth llwyddwyd i adeiladu ysgol. Roedd ef fel Mati yn awyddus i wneud gwahaniaeth i fywydau plant yn y wlad a oedd oherwydd tlodi yn cael eu hamddifadu o'r cyfle i gael addysg. Yn 2018 sefydlwyd ysgol i 36 o blant ac erbyn heddiw mae 200 o ddisgyblion a 10 athro yn yr ysgol. Mae elw'r cwmni yn mynd tuag at gynnal yr ysgol hon.

Daeth Mati â pheth o'r cynnyrch yn gysgodion lamp, yn glustogau a chlustdlysau i'w harddangos a manteisiodd yr aelodau ar y cyfle i gefnogi *maticostudio.com*. Y newyddion da yw bod Mati nawr yn ehangu a'r busnes ar fin cael cartref parhaol yn Nhŷ'r Cymry yng Nghaerdydd .

Dymunwn yn dda i Mati a'r gwaith gwych a wneir ganddi i gynnig addysg i blant Ghana. Roedd hi mor briodol yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol cael clywed am ymroddiad a buddsoddiad o'r fath.



## Clwb Rygbi Pentyrch

Mae Tlws y Mochyn Du yn aros ar Barc y Dwrlyn am gyfnod eto ar ôl i Bentyrch ennill brwydyr gyffrous yn erbyn ein hen ffrindie yng Nghlwb Rygbi Cymry Caerdydd ar Sadwrn ola'r tymor. Y bonwr Gareth Huws gyflwynodd y Tlws arbennig yma i'w roi i'r tîm buddugol rai blynyddoedd yn ôl pan oedd yn ben bandit ar y dafarn enwog honno yng Ngerddi Sophia, a hynny oherwydd ei gysylltiadau agos gyda'r ddau glwb.



Ac roedd y fuddugoliaeth honno canol mis Mai ar feysydd Pontcanna'n benllanw ac yn glo teilwng ar dymor cofiadwy i dîm cyntaf Pentyrch a enillodd ddeunaw o'u dwy gem ar hugain. Yn sgil hynny sicrhau dyrchafiad i'r ail adran y tymor nesa, gyda Llanharan a Phenarth. Llongyfarchiadau mawr felly i'r ddau hyfforddwr Chris Moss a Morgan Hayward, y capten Sam Scanlon a'r garfan gyfan ar eu llwyddiant, ac mae pawb nawr yn edrych mlân am dipyn o newid a theithio i feysydd gwahanol, gan gynnwys yr hen elyn Ffynnon Taf, y tymor nesa!! H.Ll.D.



# EFAIL ISAF

*Gohebydd Lleol:*
*Loreen Williams*

**Brysiwch Wella**
Croeso adre i Ioan Rees sydd wedi treulio rhai misoedd yn yr ysbyty.

Mae'n braf deall fod Gwilym Treharne yn gwella ar ôl yr anhwylder yn ddiweddar.

Dymunwn yn dda hefyd i Pat Edmunds sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty.

Dymuniadau gorau i Mike West, Parc Nant Celyn sydd ar fin derbyn triniaeth yn yr ysbyty ar ôl aros yn amyneddgar am fisoedd lawer.

Brysiwch wella'n fuan ac yn llwyr eich pedwar.

**Eisteddfod yr Urdd**
Dymuniadau gorau i blant a phobl ifanc y pentre a fydd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanymddyfri.

**Cricedwyr o Fri**
Llongyfarchiadau i Nia Gittins, Heol Tir Coch a aeth gyda chriw o fenywod Clwb Criced Creigiau ar daith i La Manga, Torrevieja ddechrau mis Mai. Fe gipiodd Nia dlws batwraig orau'r gystadleuaeth, a hynny am yr eildro, ar ôl ei ennill ar ei thaith gyntaf yn 2019. Daeth y tîm yn bumed allan o ddwsin o dimau cryf o bob cwr o Ewrob.



Nid Nia yw'r unig seren yn Heol Tir Coch. Mae Carys, ei merch sy'n 12 oed ac yn ddisgybl yn Ysgol Bryn Celynnog wedi cael ei dewis i ymuno â charfan ddatblygu dan 13 oed Criced Cymru De-ddwyrain.

Llongyfarchiadau gwresog i chi eich dwy.

**Y TABERNACL**
**Colli Sheila Jones**
Cynhaliwyd angladd Sheila Jones, Llanharan, yng nghapel Y Tabernacl, Efail Isaf, bnawn Mawrth, Mai 16eg.

Bydd llawer ohonoch chi'n cofio Sheila ac Arwyn, a'r merched, Eluned a Meinir, pan oedden nhw'n byw ym Mhentyrch ddiwedd y 70au, ac yn rhan weithgar o fwrlwm y cyfnod. Roedd hi'n fraint i ni yn Y Tabernacl gael talu'r deyrnged olaf iddi hi, a bod yn gwmni a chynhesrwydd i'r teulu yn eu galar.

Wedi ei geni yn Aberteifi, treuliodd Sheila ei phlentyndod yn Aberporth, a bu'r gwerthoedd a'r diwylliant brofodd ym more oes yng nghapel Bryn Mair ac Aelwyd yr Urdd Aberporth yn sylfaen iddi gydol ei bywyd, ac yn gynhysgaeth o atgofion melys.

Roedd Sheila'n siarad Ffrangeg yn dda, a'r teulu wedi cael llawer o hwyl ar eu gwyliau yn Llydaw, gan gynnwys gwylio Sheila ac Arwyn yn dawnsio i gyfeiliant Mabsant pan oedd y grŵp yn bysgio ar strydoedd Concarneau, ac i gymeradwyaeth y dorf gasglodd o'u cwmpas - er mawr chwithdod i Eluned a Meinir!

Eluned a Meinir oedd ar ben rhestr Sheila ynghanol pob prysurdeb, a hwythau'n tystio i gariad, gofal, anogaeth a direidi eu mam: "Pen i lawr, clatsho bant a chadw'r teulu'n agos" oedd ei mantra.

Bu'r teulu'n byw mewn sawl ardal arall o Gymru - Y Drenewydd, Henllan, a'r Wyddgrug, oherwydd galwadau gwaith, a Sheila ac Arwyn yn penderfynu symud yn ôl i'r ardal hon wedi i Eluned a Jonathan, a Meinir a Michael, setlo yma gyda'u teuluoedd. Roedd hyn wrth fodd calon pawb, a'r wyrion a'r wyresau - Cei, Ffion, Gwennan a Griff - yn mwynhau'r gofal cariadus ar eu haelwyd. Ac yn eu tro, bu'r merched yn gariadus ofalgar o Sheila yn ei chystudd hir a blin, ac yn gefn cadarn i Arwyn yn ei ofid a'i ofal diflino.

Yn raddedig yn y Dyniaethau ac wedi cymhwyso mewn Busnes a Chyfathrebu, celf a chrefft oedd diddordeb angerddol Sheila, a hithau wrth ei bodd yn peintio uwchben traethau Aberporth ac yn Llydaw. Roedd hi'n greadigol a cherddorol wrth natur - wedi meistroli piano, gitâr, organ geg ac accordion yn ifanc, a hynny o'r glust. Roedd hi bob amser yn annog a meithrin y merched a'r wyrion a'r wyresau i ymddiddori.

Wrth i ni gydymdeimlo ag Arwyn a'r teulu yn eu profedigaeth, fe wyddom fod arlunio, crosio a chroesbwytho Sheila yn cynhesu aelwydydd y teulu i gyd, ac yn eu hatgoffa o'i chariad, ei chreadigrwydd a'i diriedi.

Ann Davies

**Derbyn Aelodau Newydd**
Roedd yn hyfryd cael derbyn pum aelod newydd i'r eglwys fore Sul, Mai 14eg. Cyflwynwyd y pump gan Gwilym Huws, yr ysgrifennydd ac fe'u croesawyd yn ffurfiol ar ran yr eglwys gan Allan James.

Mae Alun Wyn a Jill Bevan wedi symud i'r ardal o Gastell Nedd ers rhyw flwyddyn ac yn mynychu'r Oedfaon yn Y Tabernacl yn rheolaidd. Dwi'n siŵr y byddant yn teimlo'n gartrefol yn ein plith gan fod ei merch Lowri a Dafydd a'r teulu yn aelodau gweithgar yn yr eglwys.

Cyd-ddigwyddiad anarferol iawn oedd croesawu'r ddau aelod nesaf gan eu bod yn rhannu'r un enw cyntaf a'r un cyfenw, sef Iestyn Morris. Yr Iestyn cyntaf wedi ei fagu ym Meisgyn ac yn dal i fyw yno gyda'i wraig Non, sydd eisoes yn aelod ac mae'r plant yn dod i'r Ysgol Sul yn rheolaidd. Mae Iestyn yn Unawdydd o fri.

Mae'r ail Iestyn yn meddu ar dalent gerddorol hefyd. Cawn gyfle i fwynhau ei ddawn gerddorol wrth iddo gyfeilio ar y piano i blant yr Ysgol Sul. Mae'n enedigol o Ben-y-bont ar Ogwr ac mae e a'i wraig Lowri a'r palant yn aelodau ffyddlon o'r Ysgol Sul. Braint oedd cael croesawu pum aelod mor weithgar i'n plith.

**Y Twmiaid**
Mae aelodau'r Twmiaid wedi dod i'r brig unwaith eto. Eisoes cyhoeddwyd canlyniadau Gwaith Cartref Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Llongyfarchiadau gwresog i'r Twmiaid am gipio'r Fedal Aur yn y gystadleuaeth "Cynnwys Digidol Blwyddyn 7 – 13" gyda'r promo am ffilm arswyd. Bu'r aelodau wrthi'n ddygn yn creu'r gwaith, ond rhaid cyfeirio'n arbennig at Elliw Porter a oedd yn gyfrifol am gyfarwyddo a golygu'r gwaith.

Llongyfarchiadau hefyd i Beca George, un o'r Twmiaid Bach a gipiodd y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth creu Barddoniaeth i Flwyddyn 5 a 6 am ei champwaith ar y testun "Hedfan".




Diolch unwaith eto i Eleri Mai am ei gwaith yn hyfforddi a sbarduno'r plant a'r bobl ifanc gyda'i brwdfrydedd a'i hegni arferol.

**Oedfa Cymorth Cristnogol**
Cawsom Oedfa hyfryd fore Sul, Mai 21ain i ddathlu llwyddiant Cymorth Cristnogol.

Parhad tudalen 5 >

# LLANTRISANT PONTYCLUN MEISGYN

**Gohebydd y mis: Eluned Davies-Scott**

**Colled drist ac annisgwyl**
Bu farw Elinor Triggs yn sydyn ac annisgwyl ar ddechrau'r mis. Roedd Elinor yn ferch i'r diweddar Dewi Bonner, cyn brifathro Ysgol Gynradd Beddau ac yn chwaer i Ann Passmore, Radur a David, sy'n byw yn Awstralia. Bu llawer ohonoch yn cofio Elinor fel athrawes yn Ysgol Llanhari a'r Pant. Bu'n byw yn Nhonysguboriau gyda Peter, ei gŵr a'r bechgyn, Huw a Gareth cyn symud i Gaerdydd.

## Efail Isaf (Parhad)

John Llewelyn Thomas fu'n llywyddu a chyflwyno ffeithiau am sut mae'r aelodau a'r gymuned yn cefnogi mudiadau fel Cymorth Cristnogol yn ogystal â helpu pobl anghenus yn y gymuned leol. Mi ddechreuodd plant yr Ysgol Sul gydag afiaith yn sôn am gynnwys eu basgedi siopa. Bu'r plant yn siopa mewn archfarchnad leol gan gyflwyno'r bwydydd i Loches i Ferched ym Mhontypridd. Cafwyd eitem gan Eleri Mai a grŵp o'r Twmiaid a chafwyd myfyrdod a gweddi gan Ann Dwynwen a darlleniad o'r Beibl gan Geraint Wyn Davies. Dangoswyd ffilm am y gwahaniaeth y gall cyfraniadau Cymorth Cristnogol wneud i bobl sy'n wynebu anawsterau enbyd ym Malaŵi.

**Merched y Tabernacl**
Fore Gwener, Mai 19eg fe gasglodd nifer dda o aelodau Merched y Tabernacl ym Maes Parcio'r Neuadd cyn mynd ar daith gerdded o gwmpas y pentref. Fe ymgasglodd y rhai llai heini yn ein plith yn y Ganolfan am sgwrs a phaned, cyn croesawu'r cerddwyr brwd yn ôl am baned a chyfle i roi'r byd yn ei le. Cyhoeddodd Judith Thomas mae'r cyfarfod nesaf fydd ar ddydd Gwener, Medi 8fed pan fyddwn yn cyfarfod yn y Ganolfan i drefnu rhaglen am y tymor nesaf. Mae amryw o'r aelodau'n bwriadu teithio i Orllewin Cymru ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 1af, gan ymuno ag aelodau Cymdeithas Gymraeg Llantrisant.

Trefn yr Oedfaon ar gyfer Mis Mehefin
Mehefin 4ydd Geraint Rees
Mehefin 11eg Y Parchedig Aled Edwards
Mehefin 18fed Edwyn Evans
Mehefin 25ain Y Parchedig Gethin Rhys.

**Penblwyddi**
Balch clywed fod Alan James wedi mwynhau trip dramor a chwmni'r teulu a ffrindiau i ddathlu ei ben-blwydd 'arbennig' yn ddiweddar.

Roedd hi'n ddathliad priodas rhythem ar Dennis ac Eluned, Meisgyn, hefyd ar 28ain o Fai. Cynhaliwyd eu priodas yng Nghapel Minny Street, Caerdydd.



**Chwaraewr y Flwyddyn**



Llongyfarchiadau i Alffi Edwards, Meisgyn, ar ennill Tlws Chwaraewr y Flwyddyn mewn digwyddiad ar ddiwedd tymor Tîm Dan 15 oed Clwb Pêl -droed Pontyclun. Alffi – sy'n ddisgybl Blwyddyn 10 yn Ysgol Llanhari – oedd capten y tîm hefyd yn ystod y tymor. Pob dymuniad da i ti, Alffi. Mae Alffi yn ŵyr i Gwilym ac Eleri Huws.

**Aelod Newydd**
Ymhlith y pump gafodd eu derbyn yn aelodau o Gapel y Tabernacl, Efail Isaf ddydd Sul 14 Mai roedd Iestyn Morris, Tŷ Newydd, Heol Hensol, Meisgyn. Roedd Non, priod Iestyn, eisoes wedi ymaelodi gyda'r eglwys ac mae hi bellach ar Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, tra bod y plant yn mynychu'r Ysgol Sul a'r Twmiaid.

**Merched Y Wawr Tonysguboriau**
Ym Mis Mawrth cafodd aelodau o'r gangen gyfle i ystwytho trwy ddysgu ac ymarfer symudiadau Pilates gyda Mike Ebbsworth; noson ddifyr dros ben. Cafwyd cyfle i drafod ein rhaglen ar gyfer 2023-2024 ac ein cyfraniad i Eisteddfod Genedlaethol 2024 yng nghyfarfod mis Mai. Fe fyddwn yn cael ein 'Diddanu' gan Rhian Jones ar Fehefin 21ain - 7.00yh yn Cafe50 Pontyclun.

**Gwobr i Brif Swyddog Arbennig**
Llongyfarchiadau i Gareth Williams, Brynsadler, Prif Weithredwr Cwmni Teledu Rondo, sydd wedi ennill gwobr Prif Weithredwr Mwyaf Dylanwadol Darlledu a Chyfryngau 2023.

Mae Cwmni Rondo yn darparu ystod eang o gynnwys ar gyfer S4C a darlledwyr eraill. Mae'n cynnwys rhaglenni Sgorio, Rownd a Rownd, Cynefin a Dechrau Canu, Dechrau Canmol.



Mae profiad Gareth fel Prif Weithredwr wedi datblygu dros y blynyddoedd a bu'n Gadeirydd TAC o 2018 i 2021, gan gynrychioli'r sector mewn trafodaethau gyda'r Llywodraeth ar ddyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus, a'r newid posibl mewn perchnogaeth Channel 4.

Mae'r arddull arwain yn Rondo yn gydweithredol, yn gynhwysol ac yn cynnwys gwrando ar bobl. Mae dull arwain Gareth wedi'i seilio ar sawl egwyddor sylfaenol sy'n blaenoriaethu gwrando ar bobl, cadw ymdeimlad o bersbectif, a chyfathrebu'n effeithiol ag eraill. Mae'n credu mewn gwneud ei hun ar gael i eraill a gwrando ar eu mewnbwn cyn gwneud penderfyniadau. Mae hefyd yn gwerthfawrogi cyfathrebu wyneb yn wyneb yn hytrach na dibynnu ar ddulliau cyfathrebu digidol yn unig.

Mae Rondo Media wedi arallgyfeirio ei wasanaethau ac wedi buddsoddi mewn cyfleusterau a staff ôl-gynhyrchu, cyfleusterau stiwdio a darlledu allanol, a chyfleuster stiwdio drama newydd Aria ar Ynys Môn, a ddenodd fuddsoddiadau gan gangen Fasnachol S4C a Cymru Greadigol Llywodraeth Cymru.

**Gweithgareddau'r mis yn Neuadd Y Guild Llantrisant**
Mehefin 3ydd yw dyddiad Y Picnic Mawr ar lawnt y castell eleni. Fe fydd Alan Cook yn darlithio ar Bererindod Penrhys am 7.30 ar Fehefin 8fed ac fe allwch ddarllen mwy am y bererindod hon ar wefan y neuadd. Os am ychydig o awyr iach, ymunwch a'r daith gerdded gyda'r botanegydd David Barden ar gomin Llantrisant am 10.30 ar 24ain o'r mis.

# O DAN YR WYNEB

**Martin Huws sy'n holi'r Athro Jane Aaron, awdur y gyfrol, *Cranogwen*, am Sarah Jane Rees, arloeswraig lwyddodd i drechu cyfyngiadau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.**



**Beth yw eich gwaith?**
Rwyf wedi ymddeol.

**Pa waith arall ydych chi'n wneud neu wedi ei wneud?**
Athro Saesneg ym Mhrifysgol De Cymru o 1999 tan 2013, a chyn hynny yn ddarlithydd ym Mhrifysgolion Aberystwyth, Caerlŷr a Chaerwysg ac yng Ngholeg Polytechnig Canol Llundain.

**O ble rydych chi'n dod?**
O Aberystwyth.

**Ble rydych chi'n byw nawr?**
Yn Aberystwyth,

**Wnaethoch chi fwynhau eich addysg?**
Do, yn enwedig y chweched dosbarth yn Ardwyn, Ysgol Ramadeg Aberystwyth, gydag athrawon gwych fel William Beynon Davies, yr athro Cymraeg yno ar y pryd, athro gwreiddiol iawn oedd yn mynnu creu ei gwricwlwm ei hun a'n dysgu ni fel pe baem yn barod yn fyfyrwyr prifysgol yn hytrach na phlant ysgol.

**Pwy oedd a phwy yw'r dylanwadau mwya arnoch chi?**
Fy rhieni, fy nhad fel esiampl o addysgwr, ymchwilydd ac awdur, a fy mam fel darllenwraig frwd. Yn ddiweddarach, pan ddeuthum yn ôl i Gymru ar ôl cyfnod yn gweithio yn Lloegr, dylanwadwyd arnaf yn gryf gan yr Athro John Rowlands a roddodd i mi'r hyder i gyhoeddi yn y Gymraeg.

**Pam sgrifennu'r gyfrol?**
Oherwydd i Seimon Brooks, golygydd y gyfres 'Dawn Dweud,' ofyn i mi wneud.

**Faint o ymchwil oedd angen? Beth oedd y broses?**
Y prif waith newydd oedd darllen pob gair (dros filiwn a hanner ohonynt) o'r cylchgrawn a olygwyd gan Cranogwen, *Y Frythones*, a phori trwy'r miloedd o gyfeiriadau ati yn adnoddau ar-lein y Llyfrgell Genedlaethol, 'Papurau Newydd Cymru' a 'Cylchgronau Cymru' o ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r adnoddau hynny'n cynnwys papurau newydd a chylchgronau Cymraeg yr Unol Daleithiau hefyd (fe fu Cranogwen ar deithiau darlithio a phregethu yn yr Unol Daleithiau yn 1869 tan 1871 ac yn 1888).

**Oes 'na wybodaeth newydd?**
Oes, am ei theithiau darlithio, ei bywyd personol, a hefyd y dylanwad gafodd ei magwraeth mewn pentref morwrol diarffordd arni – pentref 'menyw-ganolog' gyda'i ddynion, gan gynnwys tad Cranogwen, ymaith ar y môr am ran helaeth pob blwyddyn.

**Beth oedd y mwynhad mwya a'r heriau mwya?**
Y mwynhad mwyaf oedd darllen trwy'r *Frythones*, yn enwedig ei cholofnau 'Cwestiynau ac Atebion' lle mae Cranogwen, fel 'modryb ofidiau' y cylchgrawn, wrth gynnig atebion i broblemau ei darllenwyr yn rhoi mynegiant i rai o'i syniadau mwyaf blaengar ar rywedd (*gender*), syniadau oedd yn rhai chwyldroadol yn ystod ei hoes ac sydd o hyd yn berthnasol iawn i ni heddiw.
Yr her fwyaf oedd ceisio datrys ei bywyd personol, yn enwedig cynnig ateb i'r cwestiwn amlwg hwnnw, pwy sy'n cael ei chyfarch yn ei cherdd serch, 'Fy Ffrynd'?


**Beth ddigwyddodd yn Eisteddfod Genedlaethol 1865?**
Yn yr Eisteddfod honno enillodd Cranogwen y wobr am gerdd ar y teitl 'Y Fodrwy Briodasol,' gan guro prifeirdd ei hoes, Islwyn a Ceiriog. Ar ôl hynny roedd pawb yng Nghymru yn llawn cywreinrwydd am y ferch ifanc werinol hon a gurodd ei 'thadau' barddonol, a dyna un o'r prif resymau am atyniad ei theithiau darlithio cyntaf.



**Pa fath o gymeriad oedd Cranogwen?**
Arloesol, egnïol, deallus, carismataidd a dewr.

**Roedd hi'n forwr, athrawes, bardd, newyddiadurwr, pregethwr, darlithydd ac ymgyrchydd. Oes modd crynhoi ei chyfraniad, ei gwaddol?**
Prif waddol ei gwaith oedd ei dylanwad blaengar ar ferched eraill, yn enwedig ar gychwyn ei gyrfa gyhoeddus, pan na fyddai'r mwyafrif o'i chynulleidfa erioed o'r blaen wedi gweld a chlywed menyw'n siarad o lwyfannau cyhoeddus eu cymunedau, ac yn cael y fath groeso a llwyddiant.
Nes ymlaen, fel golygydd *Y Frythones*, llwyddodd i ddenu lliaws o ferched i ddyfod 'allan o'u hogofâu' a dechrau gyrfa fel awduron, ac fel arweinydd Mudiad Dirwest Merched y De yn negawdau olaf ei hoes dysgodd nifer mwy o ferched sut i siarad a phregethu yn gyhoeddus.
Meddai O M Edwards amdani ar ôl ei marwolaeth yn 1916: 'Ni fu yr un ferch yn ein hanes eto wnaeth fwy i gryfhau meddylgarwch, hunan-barch, a defnyddioldeb merched Cymru na Chranogwen.'

**Faint oedd y rhagfarn yn ei herbyn?**
Sylweddol. Mynnodd rhai nad hi oedd unig awdur ei cherddi, a chymharodd eraill ei hapêl fel darlithydd â chyfaredd gwrachod.




Ond cafodd bob cefnogaeth oddi wrth rai o brif arweinwyr crefyddol ei hoes, er enghraifft, y Parchedig Thomas Levi.

**Er bod cyfle iddi wneud ei ffortiwn yn America, dychwelodd i Langrannog. Pam?**
Llangrannog oedd ei chartref dewisedig drwy ei hoes, ac yno roedd yn dal i fyw fel y magwyd hi, yn clatran o gwmpas y lle yn ei ffedog a'i chlocsiau ac yn siarad y dafodiaith leol, hyd yn oed ar anterth ei gyrfa fel darlithydd a llenor. Roedd hyn yn rhan o'i hawydd cryf i 'fyned yn mlaen, a myned gydag ereill', fel mae'n dweud yn un o'i hysgrifau hunangofiannol: nid oedd am newid ei ffordd o fyw a gadael ei chymuned ar ei hôl, ond ei hannog yn hytrach i 'fyned ymlaen' gyda hi.

**Ai eich nod yw cofnodi hanes menywod sy heb gael llawer o sylw? Pa mor bwysig yw hyn?**
Ie, dyna'r nod yn y gyfrol hon a rhai o'm cyfrolau blaenorol ac yn fy ngwaith fel golygydd y gyfres 'Welsh Women's Classics' ar gyfer Gwasg Honno. Mae'n bwysig oherwydd bod eisiau i Gymraes heddiw wybod hanes ei chyn-famau er mwyn adnabod ei hunaniaeth yn llawn.

**Pwy yw eich hoff hanesydd? Pam?**
Deirdre Beddoe oherwydd iddi arwain datblygiad yr ymchwil i hanes menywod Cymru.

**Pa gyngor fyddech chi'n rhoi i awdur newydd?**
Daliwch ati.

**Beth oedd y cyngor gorau gawsoch chi erioed?**
Daliwch ati.

**Oes cyfrol arall ar y gweill?**
Dim eto (ond rhaid dal ati).

**Beth yw'r sefyllfa gyda'r cerflun i goffáu Cranogwen?**
Y dadorchuddio yn Llangrannog ar Fehefin 10 eleni.

**Disgrifiwch eich hoff bryd bwyd**
Cwrs cyntaf: Caws haloumi a salsa (yn Mama Fay, Aberystwyth).
Ail gwrs: Eog Thai a salad (yn Baravin, Aberystwyth).
Pwdin: Syndi mafon, hufen iâ a meringue (yn Medina, Aberystwyth).

**Beth yw eich hoff weithgareddau amser hamdden?**
Mynd am dro, darllen nofelau a gwylio ffilmiau.

**Dolen Gwales** https://www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9781837720255&tsid=3#top
**Cranogwen, Gwasg Prifysgol Cymru, £19**

# Ysgol Pont-Siôn-Norton

**Siarter Iaith**
Bu'r ysgol gyfan wrth eu boddau yn dathlu diwrnod Seren a Sbarc yn ystod mis Mai. Roedd rhai yn canu, rhai yn tynnu lluniau a llawer yn dawnsio mewn disgo cerddoriaeth Cymraeg!



**Parti Ponty**
Fe ddechreuodd dathliadau Parti Ponty ar y dydd Gwener gyda blwyddyn 5 a 6 yn mynd am antur i Barc Ynys Angharad ar gyfer sesiwn nofio a disgo yn y Lido ac yna picnic, hufen ia a hwyl yn y parc. Ar y dydd Sadwrn aeth y Clwb Perfformio i ganu yn y parc fel rhan o'r ŵyl. Diolch i bawb wnaeth drefnu'r parti!





**Rygbi**
Aeth blwyddyn 5 a 6 i Stadiwm y Principality i wylio a chefnogi tîm rygbi Ysgolion Pontypridd. Roedd disgyblion o'r clwstwr yn chwarae ac roedd Harri Matthews o'n hysgol ni hefyd ar y cae! Llongyfarchiadau mawr iddyn nhw ar ennill y cwpan!!

**Diolch a hwyl fawr!**
Roedd yn ddiwrnod trist yn PSN ar ddiwedd yr hanner tymor wrth ddweud hwyl fawr wrth Nicola Cridland ar ôl 16 mlynedd o weithio yn yr ysgol. Roedd Nicola yn gyn-ddisgybl hefyd! Roedd yn rhaid dweud hwyl fawr wrth Meryl hefyd, sydd wedi bod ar yr iard ginio, swyddfa ac yn yr adran Meithrin a Derbyn. Diolch i chi'ch dwy am eich holl gwaith caled a phob lwc i chi gyda'ch camau nesaf.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau enfawr i Miss Hannah Rogers ar ei phriodas diwedd mis Mai. Cafodd Hannah a Dewi ddiwrnod i'w chofio ac byddwn nawr yn dweud croeso i Mrs Griffiths i'r ysgol ar ôl y gwyliau!

# TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
prosserh@btinternet.com

**Cefnogi Busnes Cymraeg**
Gwych iawn gweld busnes newydd yn Nhonyrefail yn arddangos bathodyn oren Cymraeg yn y ffenest. Ewch i gefnogi Red Room Confectionaru. Cewch chi wasanaeth Cymraeg, ond cewch hefyd bob math o ddanteithion fydd wrth eich bodd:




**Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf 2024**
Os ydych chi am helpu i drefnu ambell i ddigwyddiad codi arian yn Nhonyrefail, rhowch wybod. Byddwn yn gwerthfawrogi pob un geiniog.






## Ysgol Dolau

**Rygbi**
Aeth ein tîm rygbi i dwrnament 10-bob-ochr Cenedlaethol URC a gynhaliwyd yng Nghlwb Rygbi Llanymddyfri ar ddiwrnod glawiog iawn. Roedd y tîm yn ardderchog drwyddo draw ac wedi chwarae rygbi gwych mewn amodau anodd iawn. Gorffennon ni'n ail yn y grŵp, ar ôl cael 'gêm off', ond wedyn aethon ni ymlaen i ennill ein rownd gynderfynol ar ôl sgorio yn chwarter olaf y gêm, cyn ennill y rownd derfynol.



**Bwyta'n Iach**
Diolch yn fawr iawn i Jarrod Evans o'r Gleision am ddod mewn i flasu smwddis iachus plant blwyddyn 3 a 4 ac i drafod pwysigrwydd bwyta'n iachus. Roedd y plant yn gyffrous iawn ac wedi gofyn lot o gwestiynau diddorol iawn. Dymunwn y gorau i Jarrod wrth iddo symud i'w glwb newydd, yr Harlequins dros yr Haf.



**Smwddis Iachus**
Aeth Flynyddoedd 1 a 2 i Athlete's Kitchen yn Llanharan i flasu smwddis iachus, cyn mynd ati i gynllunio, gwneud a gwerthuso smwddis iachus ei hunain. 'Iymi a Iachus' oedd y thema. Aethon ni am dro i'r Coop yn Llanharan i brynu'r ffrwythau iachus.








**Eisteddfod yr Urdd**
Pob lwc i ddawnswyr Dolau sydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol dros hanner tymor, pob lwc i chi gyd!



**Chwaraeon**
Teithiodd timau pêl-droed a phêl-rwyd blynyddoedd 5 a 6 i Waunmeisgyn ar gyfer gemau cyfeillgar yn erbyn Gwaunmeisgyn a Heol y Celyn. Cafwyd perfformiadau gwych gan chwaraewyr a oedd yn cynrychioli'r ysgol am y tro cyntaf. Ddylai pawb fod yn falch iawn ohonynt eu hunain!





## Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd

Cynhaliwyd cinio olaf ein tymor blynyddol ddydd Llun, yr 8fed o Fai. Ein siaradwr gwadd oedd Geraint Talfan Davies. Cawsom anerchiad diddorol iawn yn ymhelaethu ar gynlluniau uchelgeisiol ym Merthyr, sef cynlluniau i adfywio a datblygu Castell Cyfarthfa a'r tiroedd o'i gwmpas.

Gweledigaeth Sefydliad Cyfarthfa yw creu atyniad o arwyddocâd rhyngwladol fydd yn denu torfeydd o ymwelwyr. Yr un pryd meant yn bwriadu creu parc eang fydd yn gyrchfan i drigolion yr ardal a hefyd yn adnodd i gynnal digwyddiadau sylweddol.

Roedd y cyfarfod yn agor drws ar dymor newydd, wrth i Gwynn Angell drosglwyddo'r awenau i lywydd newydd. Arwel Ellis Owen fydd y llywydd newydd. Bydd ei dymor newydd yn cychwyn ar Hydref yr ail.

Os hoffech wybod am y cyfarfodydd yn y dyfodol, danfonwch eich cyfeiriad e-bost at ein hysgrifennydd, paulmorgan@ntlworld.com neu ffoniwch Paul ar 02920731211.



Gwynn Angell Jones, Geraint Talfan Davies ac Arwel Ellis Owen

## Canlyniadau Gwaith Cartref Eisteddfod yr Urdd 2023

Ffotograffiaeth : Cyfres o Luniau Lliw Bl.2 ac iau: 3ydd Lucy Thomas Ysgol Garth Olwg
Gwaith 3D Bl.6 ac iau A.D.Y. Cymedrol (grŵp): 3ydd Grŵp Hafod Ysgol Gynradd Hafod
Creu Ap Bl.6 ac iau: 1af Enfys White Ysgol Llanhari
Barddoniaeth Bl.5 a 6: 1af Beca George Ysgol Garth Olwg
Barddoniaeth Bl.12 a 13: 3ydd Mali Williams Ysgol Garth Olwg
Rhyddiaith Bl.2 ac iau: 1af Nel Spanswick Ysgol Garth Olwg
Rhyddiaith Bl.3 a 4: 3ydd Anest Jones Adran Gwaelod y Garth

# CREIGIAU

*Gohebydd Lleol:*
*Nia Williams*
*colin.williams@talktalk.net*

**Priodas Aur**
Braf cael anfon ein llongyfarchion cynhesaf i gyfeillion triw iawn i Tafod Elái - sef Peter a Gwen Condron ddathlodd eu priodas Aur ym mis Mai. Priodwyd y ddau ar Fai'r 19eg, 1973 gan y diweddar Barchedig Harri Williams yng Nghapel Soar, Penderyn. Bellach mae Capel Soar yn ganolfan hen bethau - chwaethus a drudfawr. Cafwyd parti dathlu hyfryd iawn i'r teulu a chyfeillion yn y Brenin Arthur, Reynoldston ar Fro Gŵyr. Diolch i Rhianwen am yr holl waith trefnu! Tywynnodd yr haul ar y fodrwy y p'nawn Sul hwnnw'n sicr! Stratford yw cartref Pete a Gwen ers dros chwarter canrif bellach - ond fe gofir yn annwyl iawn amdanynt fel preswylwyr Haydn House am flynyddoedd lawer tra yma'n y Creigiau. Bu'n bythefnos o ddathlu debyg - a pham lai. Da iawn chi!



Peter a Gwen ar ddydd eu priodas

**Tîm menywod Clwb Criced Creigiau'n mynd ar daith i La Manga**
Aeth criw brwd o fenywod Clwb Criced Creigiau ar daith i La Manga, Torrevieja, ddechrau mis Mai, i chwarae yn erbyn 11 o dimau eraill o Gymru, Lloegr, Y Swistir a'r Almaen. Mae'r gystadleuaeth boblogaidd yn un y mae'r menywod wedi cymryd rhan ynddi o'r blaen; cawson nhw gymaint o hwyl arni y tro cyntaf yn 2019 fel y bu'n rhaid ymweld eto'r llynedd pan ddechreuodd cyfyngiadau'r pandemig godi. Ar dir clwb criced 'Cartama Oval' Costa del Sol y cynhaliwyd yr ornest yn 2022, ond dychwelodd i'w chartref gwreiddiol ar gyfer digwyddiad eleni. Mae niferoedd y timau sy'n cystadlu wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y cyfnod byr hwn,



sy'n adlewyrchu cymaint o ddiddordeb sydd wedi datblygu yn y maes yn dilyn ymgyrchoedd gan gyrff llywodraethol criced ar draws y Deyrnas Unedig i annog mwy o fenywod i ymgymryd â gweithgareddau hamdden a ffitrwydd. Criced pêl feddal mae'r tîm yn ei chwarae (sy'n debycach i *rownders* mewn gwirionedd) ond roedd cystadleuaeth pêl galed ar waith yr un pryd hefyd.

Daeth tîm Creigiau'n 5ed o'r 12 tîm. Denwyd dros 200 o fenywod i dreulio'r penwythnos yn yr haul crasboeth, a chynhaliwyd cinio mawreddog ar ddiwedd yr ail ddiwrnod i gynnig cyfle cymdeithasol i'r cyfranogwyr gymysgu ac i gyflwyno gwobrau i 6 o'r chwaraewyr am eu perfformiad a'u cyflawniadau neilltuol. Braf yw cael rhannu bod Nia Gittins, Efail Isaf, wedi ennill gwobr 'batwraig y gystadleuaeth' am ei chyfresi cyson o 6 a 4 rhediad a'i dygnwch ar y bat – a hynny am yr ail waith wedi iddi gipio'r tlws yn 2019. Afraid dweud bod cynlluniau eisoes ar droed i fynd eto yn 2024!

Mae'r menywod yn hyfforddi bob nos Fercher o 6.30 i 8 ar y Rec, Creigiau, ac mae croeso cynnes i unrhyw un (dros 13 oed) a hoffai roi cynnig arni'n anffurfiol ac mewn cwmni hwyliog.

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Heledd Jones a'r teulu ar golli Mam a Mam-gu yn ystod mis Mai. Roedd Sandra Morris Jones wedi brwydro'n ddewr a di-flino yn erbyn yr hen elyn am gyfnod hir. Ym Mronnant, Ceredigion roedd ei chartref a bu'n athrawes ysbrydoledig ac yn aelod brwd a gweithgar o Ferched y Wawr am ddegawdau. I ddyfynnu oddi ar wefan Merched y Wawr - 'Gyda thristwch anfonwn ein cydymdeimlad at deulu y ddiweddar Sandra Morris Jones - Llywydd Merched y Wawr 2016 - 2018. Fe wnaeth gymaint dros hyrwyddo yr Iaith gan annog dysgwyr i fwynhau y Gymraeg trwy weithgareddau Merched y Wawr. Roedd yn berson llawn bwrlwm ac yn frwdfrydig iawn, yn grefftwraig ac yn hoff o deithio. Cofiwn am y wên fawr, y dwylo medrus a'r hoffter o sgwrsio a chymdeithasu.'

**Llongyfarchiadau mawr i . . .**
. . . Aled a Marian Rees! Maent newydd ddychwelyd nôl o Awstralia ar ôl cyfnod yn dod i adnabod eu hŵyr newydd yn well! Mae Heulwen eu merch a'i phriod yn byw allan yn Ne Cymru Newydd ers blynyddoedd bellach. Heulwen yn Feddyg Teulu yn Leeton, tref fach yn y wlad, rhyw chwe awr o Sydney. Cafodd Patrick Derfel ei eni ddechrau mis Mawrth, yn frawd bach i Delyth ac yn fab i Dr. Heulwen a Paul. Braf eich byd! Llongyfarchiadau mawr oddi wrthom ni i gyd nôl adre!.



**Marathon Daniel**
Llongyfarchiadau mawr Daniel Calan Jones ar dy lwyddiant yn rhedeg Marathon Caerwrangon. Yr holl glocsio, neidio dros sgubellau Dad, diffodd canhwyllau - wedi talu ar ei ganfed. Da iawn ti. Ymlaen i'r nesa!



# Colofn Blasus a Iachus

## Eluned Davies-Scott

**Byddwch yn greadigol gyda marinadau nawr bod tymor y barbeciw yma**





Mae'r gair '*marinate*' yn llythrennol yn golygu piclo mewn heli halen y môr ac, yn hanesyddol roedd hyn ar ffurf cawl hallt a ddefnyddiwyd i gadw cig. Y dyddiau hyn mae marinâdu yn aml yn cael ei hyrwyddo fel ffordd o drwytho cig â blasau ychwanegol. Fodd bynnag, myth yw hwn i raddau helaeth gan ei bod yn amhosibl i farinadau dreiddio ymhell i mewn i gelloedd y cig. Felly, canolbwyntiwch ar ddarparu cymysgedd o gynhwysion sy'n rhoi gorchudd diddorol i fwyd.

Elfennau marinâd da yw halen, braster (olew), asid ac amser.

Yn ddiweddar ysgrifennodd Palisa Anderson, cogydd ac awdur o Sydney, erthygl ddiddorol am ddylanwad ei chefndir Thai ar y defnydd o farinadau yn ei choginio; dyma ei sylwadau - *'Porc mewn marinad afal pîn, sesnin a sbeisys ar gyfer y sgiwerau grilio gorau; papaia i dyneru'r toriadau mwyaf gwydn; pinsied o siwgr palmwydd neu fêl gyda sesnin eraill i farinâdu darnau o gig wedi'i dorri'n denau ar gyfer tro-ffrio cyflym. Mae'r rhain yn gadael y cig mor gynhyrchiol a blasus fel nad oes ots pa doriad a ddefnyddiwch.'*

Mae halen yn rhoi blas a hefyd yn tarfu ar adeiledd y proteinau yn haenau uchaf y cig; mae hyn yn caniatáu ychydig o leithder o'r marinâd i fynd i mewn gan roi brathiad mwy tyner i gig. Ni ddylid gadael cig am fwy na 24 awr yn y marinâd neu bydd yr halen yn newid ansawdd y cig gyda'r haenau allanol yn



mynd yn stwnsh pan gaiff ei goginio.

Mae olewau yn sylfaen ac yn helpu i iro'r cig wrth goginio, yn enwedig pan ddefnyddir gwres garw fel ar y barbeciw. Olewau sy'n arbennig o addas ar gyfer coginio tymheredd uchel yw'r rhai sydd â phwynt mwg uchel e.e. olew afocado, cnau daear, canola, blodyn yr haul, ac sesame.

Mae'r asid yn helpu i dyneru haenau allanol cig. Gall yr asid ychwanegu blas hefyd e.e. sudd lemwn neu ffrwythau sitrws eraill, gwin gwyn neu goch, gwin neu finegr ffrwythau, iogwrt, llaeth enwyn. Po fwyaf asidig ydyn nhw (finegr, sitrws), y lleiaf sydd ei angen arnoch chi.

Bydd rysáit marinâd yn cynnwys llaeth enwyn, pîn-afal, Miso, papaia, ffrwyth Kiwi, sinsir, koji, mêl neu win dim yn unig yn gwella'r blas ond hefyd yn helpu i dyneru'r cig. Mae'r holl gynhwysion hyn yn cynnwys yr ensymau treulio, proteas, lipas ac amylas sy'n helpu i dorri i lawr protein, brasterau a charbohydradau gan wneud y cig yn feddalach ac yn haws i'w gnoi. Yn y diwydiant cig, defnyddir yr ensymau hyn ar ffurf tendrwyr cig a wneir yn fasnachol i gyflymu'r broses weithgynhyrchu ac uwchraddio cigoedd o ansawdd gwaeth.

Un gair o rybudd - pan fyddwch yn paratoi marinâd bwyd môr, gwnewch yn siŵr eich bod ddim ond yn defnyddio ychydig bach o gynhwysyn asidig a pheidiwch â gadael y bwyd môr ynddo am fwy na 30 munud i 1 awr (yn dibynnu ar y math o bysgod). Os byddwch yn gadael i fwyd môr eistedd yn rhy hir mewn marinâd fe fydd yr asid yn coginio'r cnawd. Rydych chi am osgoi hyn oni bai eich bod yn gwneud *ceviche.*

Mae llawer o farinadau yn cynnwys melysydd i ychwanegu blas fel siwgr brown, mêl, surop masarn, triagl neu siwgr palmwydd. Mae hefyd yn helpu i garameleiddio'r cig a rhoi gwead crensiog ac ymddangosiad disglair.



Mae perlysiau a sbeisys yn ychwanegu amrywiaeth o flasau gyda'u blasau'n cael eu hechdynnu gan yr olewau a ddefnyddir. Gellir defnyddio sbeisys cyfan a mân. Os oes angen i'r rysáit farinâdu dros nos, mae'n well defnyddio sbeis cyfan yn hytrach na rhai wedi'u malu, er mwyn darparu blas mwy cynnil. Gallwch hefyd ychwanegu ffon sinamon cyfan neu ddeilen llawryf.

Rhosmari a theim yw'r perlysiau mwyaf cyffredin gyda'u blasau dwys yn gwrthsefyll gwres y barbeciw. Gellir eu defnyddio coesau stiff rhosmari fel sgiwerau grilio ar gyfer cig a llysiau. Mae oregano a saets yn paru'n hyfryd â lemwn mewn marinadau ar gyfer cyw iâr. Mae dil yn ddewis da i bysgod.

Dilynwch yr awgrymiadau hyn ar gyfer marinadu:

- Gadewch lysiau am 15 i 30 munud mewn marinâd, pysgod a bwyd môr am 15 munud i awr, dofednod am 30 munud i 3 awr, a chig arall am 30 munud i dros nos.
- Sicrhewch fod eich marinâd yn cynnwys elfen asidig i dyneru cig.
- Rhowch y bwyd oergell bob amser. Gall marinâdu ar dymheredd ystafell ganiatáu i facteria peryglus dyfu ac arwain at salwch a gludir gan fwyd.
- Paratowch tua hanner cwpanaid o farinâd fesul pwys o gig, bwyd môr neu lysiau.
- Trowch y bwyd ychydig o weithiau yn ystod yr amser mae yn y marinad i wneud yn siŵr bod pob arwyneb yn dod i gysylltiad digonol a bod y blas yn cael ei gynyddu i'r eithaf.
- Peidiwch â defnyddio gormod o halen. Bydd halen yn tynnu lleithder allan o gig gan achosi iddo sychu ac atal blas rhag amsugno i mewn. Gellir ychwanegu halen yn ddiweddarach, ar ôl coginio i flasu.
- Peidiwch ag ailddefnyddio marinadau na defnyddio marinadau fel saws ar ôl coginio. Mae marinadau mewn cysylltiad â chynhwysion amrwd, a all gynnwys bacteria niweidiol.
- Peidiwch â marinadu mewn cynwysyddion metel. Gall metel adweithio'n gemegol â'r asidau yn y marinâd ac achosi newid mewn blas.
- Peidiwch â rhewi cigoedd yn eu marinâd. Gall amlygiad hirfaith i'r asidau yn y marinâd ynghyd â difrod gan grisialau iâ achosi i'r cig fynd yn stwnsh.

Mae yna lu o ryseitiau ar gyfer marinadau. Dyma rysáit Palisa Anderson:

1kg o borc/cig eidion/cig oen/gafr, wedi ei dorri'n ddarnau
2 lwy fwrdd o saws wystrys
1 llwy fwrdd mirin
1 llwy fwrdd o siwgr palmwydd neu fêl amrwd

Parhad tudalen 11>

# Colofn Blasus a Iachus
(Parhad)

50g o bîn-afal, wedi'i dorri'n ddarnau a'i wasgu â'ch dwylo glân i dynnu cymaint o sudd ag y gallwch. Gallwch hefyd ddefnyddio tafelli o bapaia aeddfed, amrwd.
1 wy wedi'i guro
1 llwy fwrdd o saws pysgod (Nam Pla)
10g sinsir, wedi'i falu neu ei guro â fflat cyllell fawr
1 llwy de o bupur gwyn wedi'i falu
Gwnewch marinâd trwy gymysgu'r cynhwysion gyda'i gilydd. Ychwanegwch y cig i'r marinad. Gorchuddiwch yna rhowch yn yr oergell am o leiaf 2 awr ond dim hirach na dros nos.



Defnyddiais y rysáit canlynol yn ddiweddar ar gyfer cyw iâr; mae'n rhwydd a blasus (ar gyfer 2-3 person):

Torri 500g cluniau cyw iâr, heb esgyrn a chroen, yn ddarnau ar gyfer rhoi ar sgiwerau. Cymysgu 80g o iogwrt Groegaidd braster isel gyda llwy fwrdd yr un o olew olewydd a finegr gwin coch, 2 ewyn arlleg wedi'u malu, sudd hanner lemwn, llwy de'r un o baprica wedi'i fygu a oregano sych. Gwneud yn siŵr fod pob darn o'r cyw iâr wedi'i orchuddio gyda'r marinad cyn ei roi yn yr oergell am o leiaf 2 awr cyn ei goginio ar y sgiwer o dan y gril neu ar y barbeciw am 30-40 munud. Gweini gyda llysiau wedi eu piclo, salad gwyrdd, tomatos a saws tsili poeth.



# Ras Bryn Pentyrch, 25 Ebrill 2023

Roedd hi'n noson ogoneddus o heulog ym mis Ebrill wrth i Ras Bryn Pentyrch ddychwelyd i'r calendr yn dilyn helbulon 2020 - 2022. Croesawyd dychweliad y ras gyda brwdfrydedd aruthrol gan y 165 o athletwyr. Profodd yr her o redeg 7 milltir o sgwâr Pentyrch lan a lawr tua 1500 troedfedd ar Fynydd y Garth yn anorchfygol i nifer o redwyr lleol brwdfrydig yn ogystal â rhedwyr o bellach i ffwrdd e.e. Chelmsford Eryri.

Cafodd y 165 o athletwyr eu cyfarch a'u hanfon ar eu ffordd gan y chwedlonol John Gough, y trefnydd lleol, a gadarnhaodd fod y ras wedi'i rhedeg am y tro cyntaf ym mis Ebrill 1986 a'i hennill gan Harry Day o Beddau AC. Roedd John yn ddiolchgar i'w dîm o wirfoddolwyr eiddgar o Eglwys Sant Catwg, Ambiwlans Sant Ioan, Clwb Rygbi Pentyrch a nifer o glybiau rhedeg a sefydliadau lleol.

Canlyniadau:163 o orffenwyr
Benyw
1af Katie Ironside, Mynddwyr de Cymru. 2il Anna Williams, Rhedwyr Caerffili. 3ydd Ffion Morgan
Cyn-filwr Benyw 40+
1af Cheryl Fowler, Harriers Cas- gwent. 2il Liz Mai, Pontypridd Roadents. 3ydd Ruth Sutton, Pontypridd Roadents.
Gwryw
1af Sam Boreham, Pontypridd Roadents. 2il Adam Whittaker, Rhedwyr CDF. 3ydd Marc Palser, Les Croupiers RC.
Cyn-filwr gwrywaidd 40+
1af Matt O'Keefe, Mynyddwyr de Cymru. 2il Darren Bishop, Pontypridd Roadents. 3ydd Michael Darke, Rhedwyr CDF.

Sam Boreham oedd yr aelod cyntaf o Pontypridd Roadents i ennill y ras i ddynion hŷn, ac mae ei amser (45:30) wedi gwella ar y cwrs presennol yn unig gan yr enillydd pedair gwaith hŷn, Daniel Bodman (Cwm Aberdâr) (yn 2017). Michael Davies

# Eisteddfod Genedlaethol 2024 Cyfrannu i'r Gronfa Leol

Rydyn ni wedi bod yn gweithio ar nifer o becynnau cyfrannu dros y misoedd diwethaf, gyda phob math o ffyrdd i gyfrannu. Ymysg y pecynnau sydd ar gael mae:

**Cynnig Gwobr:** mae cynnig gwobr yn ffordd hawdd ac effeithiol o anrhydeddu neu gofio am unigolyn neu sefydliad sy'n agos at eich calon, ac mae cyfleoedd yn cychwyn o £15, https://2023.eisteddfod.cymru/gwobrau. Bydd eich cyfraniad yn cael ei nodi yn y Rhestr Testunau, y Rhaglen Swyddogol ac o'r llwyfan yn ystod y gystadleuaeth. Mae eich gwobr hefyd yn gyfraniad at darged eich ardal leol fel rhan o'r Gronfa Leol. Gallwch hefyd ychwanegu 25% at eich rhodd heb dalu ceiniog yn ychwanegol drwy gynllun Rhodd Cymorth Llywodraeth y DU. Ticiwch y bocs ar y wefan.

**Cyfrannu £15 am 15 mis:** gallwch gyfrannu £5, £10, £15 neu fwy yn fisol tan yr Eisteddfod yn 2024, naill ai drwy gwblhau'r ffurflen ar-lein, https://cafdonate.cafonline.org/23310, neu drwy ebostio oriel@eisteddfod.cymru yn y swyddfa. Mae pob cyfraniad yn mynd at y Gronfa Leol yma yn Rhondda Cynon Taf.

**Noddi:** os oes gennych chi fusnes neu gwmni ac eisiau cynnig rhodd o fwy na £3500, beth am gysylltu i drafod nawdd corfforaethol? Anfonwch e-bost at betsan@eisteddfod.cymru am ragor o wybodaeth ac i ddatgan diddordeb.

Unwaith y byddwn wedi cynnal ein cyfarfod lleol, bydd y gweithgarwch yn dechrau. Bydd croeso cynnes i bob un sydd eisiau cymryd rhan.

Helen Prosser
(Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Rhondda Cynon Taf)



John Gough, ar y dde, yn cychwyn Ras Bryn Pentyrch

# Bethlehem, Gwaelod-y-garth

**Trefn yr Oedfaon ac Ysgol Sul (am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol):**

**Mis Mehefin 2023:**
**(Mis o Ddathlu 150 mlwydd oed yr adeilad presennol)**
4 Mehefin – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
11 Mehefin – Cymanfa Ganu dan arweiniad Eilir Owen Griffiths (am 5:00 p.m.)
18 Mehefin – Oedfa Ddathlu'r Ysgol Sul
25 Mehefin – Oedfa Ddathlu dan arweiniad y Parchedig R Alun Evans

**Mis Gorffennaf 2023:**
2 Gorffennaf – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
9 Gorffennaf – Oedfa Ardal y Creigiau ac Efail Isaf
16 Gorffennaf – Oedfa dan ofal y Parchedig Aled Edwards
23 Gorffennaf - Oedfa dan ofal y Parchedig Robert Owen Griffiths
30 Gorffennaf - Oedfa ar y cyd â Tabernacl, Efail Isaf




"*A dyna ddod a ni yn daclus at ddechrau ar yr addoli yn yr adeilad presennol… Cymerodd yr agoriad le dydd Saboth a Llun y 1af a'r 2il cyfisol [mis Mehefin 1873.]"*
*Cewch fwy o'r hanes y tro nesaf!*
Dyna'r addewid a roddwyd yn y rhifyn diwethaf o Tafod Elai (rhif 377 Mai 2023 – gweler tudalen 12/13).
Felly….

Yn sgil marwolaeth y Gweinidog, y Parchedig John Jones, ym mis Mehefin 1872, bu'r Bethlehem newydd heb weinidog hyd at yr 16eg o Fehefin 1874, pryd y gwahoddwyd Mr Morgan Charles Morris (ganed 6ed o Awst 1845 ger Salem, Bow Street, Ceredigion), myfyriwr yng Ngholeg Coffadwriaethol Aberhonddu, yno i wasanaethu.

Roedd, *yn ôl "Y Tyst a'r Dydd" (rhifyn 6ed o Fawrth 1874), "… wedi cael galwad unfrydol oddi wrth eglwys Bethlehem, Pentyrch, a'i fod yntau wedi ei hateb yn gadarnhaol. Yr ydym yn llawen fod yr eglwys yn debyg o gael dyn ieuanc mor addawol*."

Ymestynnodd ei weinidogaeth ef hyd Sulgwyn 1880, pryd y'i denwyd yn weinidog i Salem, Coedpoeth, ger Wrecsam. Yn ddiweddarach dychwelodd i fod yn weinidog yn Ton, Ystrad, Morgannwg yn 1882.

Mae'n amlwg ei fod yn ddarlithydd penigamp, ac yn adnabod ei gynulleidfa, gan i "Y Tyst a'r Dydd" (22 Medi 1876) gofnodi fel a ganlyn:-

"*Nos Sadwrn, Medi y 9fed, traddodwyd yma ddarlith neillduol o dda gan y Parch M C Morris, gweinidog y lle, ar y testun canlynol – "Y gweithiwr, ei iawnderau, ei ddyletswyddau, a moddion ei ddyrchafiad" Digon yw dyweyd i ni gael boddhad mawr yn y darlithydd a'i ddarlith. Hefyd, ni gawsom ein boddhau yn fawr yn y Cadeirydd, sef y Parch T Rees (M.C.) Ffynnon Taf. Fe fyddai'n fantais fawr i bob gweithiwr gael clywed y ddarlith hon, oblegid mae ynddi bethau sydd yn werth eu clywed, yn enwedig i'r collier….Yr oedd yr elw yn myned at ddileu dyled y capel. Hir oes i Mr Morris i fyned yn mlaen gyda phob ymdrech o'i eiddo."*

Fe gofiwch fod dyled o dros £575 yn aros wedi adeiladu'r capel, ond yn fwy perthnasol o ran y ddarlith oedd iddi gael ei thraddodi rhyw 9 mis yn unig wedi trychineb Glofa'r Lan, pryd y collodd dwsin o ddynion a phlant eu bywydau (12 oed oedd oedran Moses Llewellyn, yr ieuengaf i'w ladd yn y ddamwain!) ar fore'r 6ed o Ragfyr 1875. (Bu farw 4 arall o'u hanafiadau yn ddiweddarach.)

Dadorchuddiwyd cofeb ar y safle, sydd rhyw ddau can llath o'r Capel, yn 2012. [Nid oes gwybodaeth gennyf a oedd unrhyw un o'r colledion yn aelodau ym Methlehem ar y pryd, ond un o'r rhai a laddwyd yn y ddamwain oedd Abraham Phillips, goruchwyliwr (overman) yn y Lofa, ac un o ddisgynyddion Shon o'r Lan. Gadawodd weddw a chwech o blant. Gwyddom, serch hynny, bod teulu'r Phillipiaid a chyswllt agos a Bethlehem, a bod Ann Gray, gor-nith i Abraham Phillips, wedi bod a rhan yn dadorchuddio'r gofeb ar safle'r lofa.]

Â'r Eisteddfod Genedlaethol yn dychwelyd i ardal Rhondda Cynon Taf yn 2024, diddorol nodi y bu i'r Parchedig M.C Morris ennill coron (a £25) yn Eisteddfod Genedlaethol Pontypridd 1893, am gyfansoddi arwrgerdd i "Rhys ap Tewdwr". ('Roedd wedi dod yn ail deirgwaith yn olynol cyn hyn yn Eisteddfodau Wrecsam, Bangor ac Abertawe.)

Bu farw ar y 7fed o Dachwedd 1900, ac fe'i claddwyd ym mynwent y Groeswen "*ymhlith llu o feirdd a phregethwyr Cymru*" (gweler "Pebyll Seion" dan olygiaeth Tawelfryn – Caerdydd 1904).

Wedi ymadawiad y Parchedig M C Morris, aeth tair blynedd wedi hynny cyn galw'r Parchedig Owen Lewis Roberts, yn weinidog. Fe'i ganwyd ym Mryngwran, Ynys Môn, yn 1862.

*"Llawenydd gennym eich hysbysu fod yr eglwys hon wedi rhoddi galwad daer ac unfrydol i'r Parch O.L.Roberts, Penarth, Sir Drefaldwyn, a'i fod yntau wedi ei hateb yn gadarnhaol. Dechreua ar ei weinidogaeth yr 28ain o Hydref. Bydded bendith Duw ar yr undeb i fod er daioni*." [O "Y Tyst a'r Dydd" 5 Hydref 1883.]

Cofnodir Cyfarfodydd Sefydlu'r Parchedig O L Roberts yn "Y Tyst a'r Dydd" 14eg o Ragfyr 1883, fel a ganlyn:
*"Cyfarfod Sefydliad – Nos Fawrth a dydd Mercher, Tachwedd 27ain a'r 28ain, cynhaliwyd cyfarfod sefydliad y Parch O.L.Roberts, gynt Pen-arth, Maldwyn, yn weinidog i'r eglwys uchod.*
*Dechreuwyd nos Fawrth trwy ddarllen a gweddïo gan Mr D Phillips, Coleg y Bala, a phregethwyd gan y Parchn J.R.Davies, Caerdydd ac E Roberts, Byrwydd, Maldwyn.*
*Dydd Mercher, am 10, dechreuwyd gan y Parchn E Thomas, Glan-taf, a phregethwyd gan y Parchn E Roberts, Byrwydd, a M Jones, Tynewydd, Rhondda.*
*Am ddau, cymerodd y Cyfarfod sefydlu le, pryd y dechreuwyd gan y Parch J.T.Evans, Bodringallt, a phregethwyd gan y Parchn T J Rees, Carno, Maldwyn, J Davies, Taihirion, a M.C. Morris, Ton-Ystrad – y cyntaf ar "Natur Eglwys", yr ail ar "Ddyletswydd y gweinidog", a'r trydydd ar "Ddyletswydd yr Eglwys".*
*Gofynwyd am yr arwyddion arferol o du yr eglwys a'i gweinidog gan y Parch D.G.Rees, Eglwysnewydd, pa rai a roddwyd yn unfrydol a boddhaol gan y naill a'r llall ohonynt. Yna offrymwyd yr urdd-weddi gan y Parchn W Rees, Glandwr.*
*Nos Fercher, dechreuwyd gan y Parchn T J Rees, Carno, a B Davies, Treorci. Cafwyd cyfarfodydd da o'r dechrau i'r ddiwedd. Yr oedd yr Efengyl yn cael ei phregethu gyda blas a dylanwad. Cafwyd arwyddion amlwg fod Duw yn foddlon i'r undeb….Llawenydd gennym hysbysu fod arwyddion amlwg fod yr eglwys a'r gweinidog yn hoff iawn o'u gilydd, a bod Mr Roberts wedi ymaflyd yn ei waith o ddifrif.*
*Y mae am y gauaf wedi sefydlu yma i ni fel dynion ieuanc Gymdeithad Ddiwylliadol, yng nghyd a Dosbarth Beiblaidd. Cynhelir y naill un wythnos, a'r llall yr wythnos arall. Yr ydym eisoes wedi cael ysgrifau diddorol ar y pynciau canlynol:- "Gwerth cymeriad", a "Pa un yw y mwyaf dylanwadol- y Pwlpud neu ynte y Wasg?". Mae lliaws o bynciau da eraill wedi eu nodi allan, a disgwyliwn ysgrifau da arnynt.*
*Felly nis gallwn lai na dymuno i'r undeb fod yn un hir, heddychol, a*

Parhad tudalen 13 >

## Bethlehem (Parhad)

*thangnefeddus, fel y gweler daioni lawer yn y lle, a Duw trwy hynny i gael ei ogoneddu."*

Er y gobaith uchod am dymor gweinidogaethol hir, dim ond tan y 6ed o Fehefin 1886 y parhaodd yr uniad, gan i'r gweinidog symud i gymeryd gofal o eglwys ifanc yn Cathays, Caerdydd [sef Capel Minny Street].

Yn "Llewyrch Ddoe, Llusern Yfory", sef y gyfrol a gyhoeddwyd yn 2009 yn cofnodi hanes "Eglwys Annibynol Minny Street, Caerdydd 1884 - 2009", dyfynnir y Parchedig O.L.Roberts yn cydnabod yr alwad yno fel a ganlyn:- "*Yr wyf yn cofio y nawr y diwrnod y daeth Mr Tom Roberts, y Diacon hynaf hefyd Ysgrifennydd yr eglwys i'm cyfarfod i orsaf Walnut Tree (Ffynnon Taf) i gyflwyno yr alwad i mi, penderfynais dderbyn yr alwad, a symydais yn nechrau Gorffennaf y flwyddyn honno, yr un pryd yr oeddwn hefyd yn cymeryd cam pwysig arall mewn bywyd sef priodi gwraig, sef Miss Annie Thomas…Nid oedd y cyflog a roddid i mi ond £100 y flwyddyn ac yr oedd yn fenter pur fawr i geisio cadw tŷ a byw mewn tref fel Caerdydd ar swm o'r fath…*".

Ymadawodd yn 1891 am Benlan, Pwllheli, ac yna'n 1897 symudodd i'r Tabernacl, Lerpwl, lle bu'n weinidog am 27 mlynedd hyd ei farw yn 1924.

Bu'n Gadeirydd (bellach "Llywydd") Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn 1922, ac ef oedd y cyntaf i dderbyn Beibl Cadeirydd yr Undeb bryd hynny.

[Nodir felly bod tri o weinidogion a chyswllt a Bethlehem, Gwaelod-y-garth wedi llenwi'r swyddogaeth honno dros y blynyddoedd – y ddau arall oedd y Parchedig R G Berry [1943], ac yn fwy diweddar y Parchedig R Alun Evans [2014].

Olynydd y Parchedig O.L Roberts ym Methlehem oedd y Parchedig Tomos Jenkyn Rees, a bu'n weinidog ar yr eglwys rhwng 1891 ac 1895. Ymunodd yno o Garno, a symudodd o Fethlehem ar ddiwedd ei gyfnod i Langatwg.

Ac o sylwi'n fanwl ar y cofnod uchod am sefydlu'r Parchedig O L Roberts, fe welwn bod rhan nid ansylweddol wedi bod yn y gweithgareddau hynny gan y Parchedig T J Rees, Carno, a thybed nad hynny a arweiniodd at yr alwad iddo yntau fel olynydd iddo?

Eto, yn eithaf diddorol, yn y cyfnod di-weinidog, rhwng y ddau a enwir uchod, y dechreuwyd yr arfer o gynnal Cymanfa Ganu ar Ddydd Gwener y Groglith ym Methlehem, yn 1888, a pharhaodd hynny yn ddi-dor am ganrif a mwy.

Fel y dywed cyflwyniad i Raglen dathlu Canmlwyddiant y Gymanfa yn 1988:-

*"Pan 'greodd' Ieuan Gwyllt y Gymanfa Ganu yn 1859, nid oedd yn bosibl iddo fod wedi rhagweld ei phoblogrwydd mawr a'i hapêl barhaol.*

*Yn wreiddiol yr oedd chwe chapel Annibynnol yn yr "Undeb Canu Cynulleidfaol": Bethlehem (Gwaelod-y-garth), Glandŵr (Nantgarw), y Watford (Mynydd Caerffili), Bronllwyn (Pentyrch), Y Winllan (Nantgarw), a'r Groeswen."*

Bethlehem oedd yr olaf i gynnal y Gymanfa, a da dweud y byddwn yn cynnal Cymanfa Ganu fel rhan o ddathliadau 150 oed ar yr 11eg o Fehefin (am 5:00 p.m.), dan arweiniad Eilir Owen Griffiths.

Hefyd, yn ôl yr adroddiad a ymddangosodd yn y Tyst ar y 25ain o Fai 1894, yn ystod gweinidogaeth y Parchedig T J Rees yr adeiladwyd yr ysgoldy newydd (y Festri) sydd wedi ei adeiladu y tu ôl i'r Capel.

*"Llywyddwyd ar yr achlysur gan y Parchedig T J Rees. Wedi i'r llywydd ddechrau trwy weddi, a rhoi anerchiad agoriadol, Cawsom adroddiadau a chân gan amryw o blant yr Ysgol Sul, ac areithiau hefyd gan rai o'r brodyr. Cawsom gyfarfod difyr, bywiog ac adeiladol. Y mae yr ysgoldy yn adeilad rhagorol. Eistedda dros 200 yn gysurus ynddo. Y mae gan Bethlehem adeilad i fod yn falch ohono. Y peth nesaf sydd i'w wneud ydyw talu y £400 y mae yr adeilad wedi ei gostio. Dechreuir yn y cyfeiriad hwn yng nghyfarfod y Sulgwyn.*

*Prynhawn yr un dydd, bu y Gobeithlu yn cael eu te blynyddol, ac wedi hynny cafwyd gorymdaith yn rhifo tua 100, yn cael eu blaenori gan y Seindorf ddirwestol newydd sydd wedi cychwyn yn y gymdogaeth. Yr oedd pob un yn gwisgo medal, ac yn argraffedig arno - Gobeithlu Bethlehem. Yr oedd yr olwg arnynt yn brydferth iawn.*

*Gall eglwys Bethlehem fod yn falch iawn o'r dynion ifainc sydd yn gweithio mor egniol yng nghyfeiriad dirwest a'r Ysgol Sul yn y lle. Dyma'r modd y treuliwyd gennym Ddydd agoriad ein hysgoldy newydd.*"

Ac yna, wedi cyfnod y Parchedig T J Rees y gwelwyd cychwyn ar gyfnod maith gweinidogaeth y Parchedig Robert Griffith Berry (1897 tan 1945)!

Ond ymddengys y bydd yn rhaid aros am ofod yn y rhifyn nesaf i gael mwy o'r hanes!







**Cerdded, Sgwrsio a Chadw'n Heini – Mis Mehefin gyda'r Mentrau**

Roedd hi'n braf gweld cymaint ohonoch yng Ngŵyl Fach y Fro ar 20 Mai. Diolch i bawb ddaeth draw i Ynys y Barri i glywed y bandiau gwych a mwynhau'r canu swynol gan gorau'r ysgolion. Ymlaen â ni i Tafwyl! Cofiwch y dyddiad – Sadwrn, 15 a Sul, 16 Gorffennaf.

Mae dros fis i fynd tan hynny wrth gwrs, felly beth sydd ar y gweill ar gyfer mis Mehefin?

**Taith Gerdded Mynydd y Garth (bore Sul, 25 Mehefin)**

Dewch gyda ni ar gylchdaith 5 milltir o Ffynnon Taf i gopa Mynydd y Garth. Yn ogystal â mwynhau'r golygfeydd bendigedig dros aber Afon Hafren, cewch weld nifer o feddrodau o Oes yr Efydd ar y copa. Bydd nifer o lethrau serth ar y ffordd ond bydd hi'n werth yr ymdrech! Mae croeso i siaradwyr Cymraeg o bob lefel.

**Sgwrs y Mis (nos Lun, 26 Mehefin, Zoom)**

Yr Athro Bill Jones fydd yn ymuno â ni ar gyfer Sgwrs y Mis, nos Lun, 26 Mehefin gan gynnig cipolwg ar rai o brofiadau ymfudwyr o Gymru wrth iddynt groesi'r cefnforoedd ar eu ffordd i'w bywydau newydd dros y dŵr. Canolbwyntir gan fwyaf ar Gymry a groesodd Fôr yr Iwerydd yn ail hanner y 19eg ganrif er mwyn ymsefydlu yn Unol Daleithiau America. Cawn glywed straeon y mordeithwyr yn eu geiriau eu hunain gyda chymorth ffynonellau gwreiddiol sydd wedi goroesi, gan gynnwys llythyrau personol, gohebiaeth i'r wasg, dyddiaduron, atgofion a barddoniaeth.

**Mewn Tiwn (bore Llun, 26 Mehefin, Canolfan Beulah, Rhiwbeina)**

Y chwaraewr ffidil Aneirin Jones fydd yn perfformio i ni yn ein cyngerdd gymunedol olaf cyn yr haf ar fore Llun, 26 Mehefin. Mae Aneirin, sy'n aelod o'r triawd gwerin VRï, yn rhan o gynllun Live Music Now sy'n cynnig cyfle i gynulleidfaoedd fwynhau cyngherddau anffurfiol yn eu cymunedau. Bydd y gyngerdd, sy'n rhad ac am ddim, yn dechrau am 11.30 ond bydd paned ar gael o flaen llaw.

**Cadw'n Heini**

Awydd gwneud ychydig o ymarfer corff cyn gwyliau'r haf? Beth am roi cynnig ar un o weithgareddau ffitrwydd Menter Caerdydd? Gallwch ddewis o 'Lonc a Chlonc' ym Mharc Bute bob nos Fawrth, yng nghwmni Myfanwy Thomas o 'Mae Hi'n Rhedeg Caerdydd' neu ioga bob nos Fercher gyda 'Pili Pala Yoga'. Hefyd nos Fercher, mae 'Codi Cryfder gyda Gwenno'; cyfle i gryfhau'r cyhyrau a'r esgyrn mewn dosbarth sy'n addas i bawb o bob maint ac oedran!

**Clybiau Plant**

Byddwn ni'n croesawu criw Technocamps yn ôl i'r Atrium ar brynhawn Llun, 12, 19 a 26 Mehefin ar gyfer y Clwb Codio. Mae'r sesiynau, sy'n rhad ac am ddim, yn boblogaidd iawn felly cofiwch gofrestru'n gynnar! Ysgol y Berllan Deg fydd lleoliad ein Gweithdy Gwyddoniaeth olaf am y tro yng nghwmni SparkLab ar 19 Mehefin. Y pris yw £11 a gellir cofrestru ar wefan Menter Caerdydd. Cofiwch hefyd am ein sesiynau i blant bach a'u teuluoedd gan gynnwys Amser Stori wythnosol newydd yn y Llyfrgell Ganolog ar brynhawniau Llun o 12 Mehefin.

**Y Cwis Mawr: Rownd Caerdydd (nos Iau, 6 Gorffennaf, Institiwt Llandaf)**

Ydych chi'n gwybod popeth am bopeth? Beth am ymuno â ni yn Institiwt Llandaf am Rownd Caerdydd o'r Cwis Mawr? Dyma gwis cenedlaethol a drefnir gyda chymorth Mentrau Iaith Cymru a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Y syniad yw dod â siaradwyr newydd a rhugl ynghyd i fwynhau noson o gystadlu hwyliog. Bydd digon o chwerthin yng nghwmni'r cwis-feistr profiadol, Aled Wyn Phillips, a chyfle i'r tîm buddugol fynd trwyddo i'r rownd derfynol yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Ewch i'r wefan i gofrestru eich tîm!

**Gorffennaf - Cadwch y dyddiad:**
**Cerdded a Chlonc:** Bore Iau, 6 Gorffennaf, 10.30
**Taith Natur Tafwyl**: Prynhawn Sul, 9 Gorffennaf.
**Parti yn y Parc**: Bore Llun, 10 Gorffennaf, Parc y Rhath
**Tafwyl:** Penwythnos, 15 a 16 Gorffennaf

**Gwefan: mentercaerdydd.cymru**
**Facebook: @m.caerdydd**
**Instagram: @mentercaerdydd**
**E-bost: post@mentercaerdydd.cymru**
**Ffôn: 029 2068 9888**

## Hwyl Gŵyl Fach y Fro











# Ysgol Tonyrefail

**Neges Ewyllys Da yr Urdd**
Cynhaliwyd gwasanaeth i rannu Neges Ewyllys Da yr Urdd gyda'r plant. Diolch i ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 am greu fideo gwrth-hiliaeth ac i blant Blwyddyn 3 a 4 am greu cerdiau i rannu cyfarchion gyda ysgolion eraill.



Cerdiau Neges Ewyllys Da yr Urdd Bl 3

**Sêr y Sir**
Cafodd Eladie-Belle ag Isaac gyfle i berfformio yng nghyngerdd Sêr y Sir Morgannwg Ganol ar gampws Pencoed – profiad da iawn cyn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanymddyfri.

**Diwrnod Seren a Sbarc**
Roedd Seren a Sbarc i'w gweld ym mhobman o amgylch yr ysgol yn ystod dathliadau Diwrnod Seren a Sbarc. Roedd y dosbarthiadau wedi cynnal nifer o wahanol ddigwyddiadau i ddathlu'r achlysur.



Blwyddyn 2 yn dathlu diwrnod Seren a Sbarc

**Pêl-droed**
Cafodd y tîm pêl-droed gyfle i gystadlu mewn twrnament i ysgolion lleol ar gaeau chwarae Maritime ym Mhontypridd. Cafwyd canlyniadau cymysg i'r gemau ond roedd pawb yn hapus iawn gyda nifer y goliau a sgoriwyd.



Tim Pêl-droed yr ysgol

**Clwb yr Urdd**
Mae'r plant sydd yn mynychu Clwb yr Urdd wedi bod wrthi yn plannu gwahanol lysiau yn ein bocsys plannu newydd. Gobeithio y byddwn yn gallu bwyta'r cynnyrch cyn diwedd y tymor!



Planhigion yn barod i'w plannu



Clwb Yr Urdd yn plannu llysiau

**Cyngor Eco**
Diolch yn fawr i aelodau'r Cyngor Eco fu wrthi'n ddiwyd yn didoli gwastraff bocsys wyau Pasg. Mae hyn yn rhan o her ail-gylchu Rhondda Cynon Taf i ysgolion. Diolch i ymdrech y disgyblion, fe gasglwyd pentwr mawr o focsys.



Y Cyngor Eco gyda'r bocsys wyau Pasg a gasglwyd ar gyfer yr her ailgylchu

**Boreau Coffi**
Tro rhieni plant Cam Cynnydd 3, sef dosbarthiadau Blwyddyn 4,5 a 6 oedd hi y mis hwn i ddod i'r ysgol i weld gwaith y plant ar y thema 'Ar Stepen fy Nrws'. Roedd y plant wedi cael y cyfle i dywys eu rhieni ac aelodau o'r teulu o gwmpas y gwahanol arddangosfeydd, gan drafod y gwaith yr oeddynt wedi bod yn ei wneud ar y thema. Roedd y plant a'u teuluoedd wedi mwynhau'r profiad yn fawr.



Gwaith ar Hawliau plant fel rhan o'r thema 'Ar Stepen Fy Nrws'



Disgyblion yn dangos eu gwaith i'w rhieni

**Pêl-fasged**
Bu'r tîm pêl-fasged yn cymeryd rhan yn Nhwrnament Valley Hoops, Missy Lender yng Nghanolfan Hamdden Rhondda Fach yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i'r tîm ar ddod yn drydydd ar y dydd. Roedd pawb wedi mwynhau'r cyfle i gael chwarae yn erbyn timau o ysgolion eraill.



Y Tîm Pêl Fasged yn nhwrnament Valley Hoops

# Menter Iaith Rhondda Cynon Taf




**Parti Ponty 2023**
Diolch i bawb am eich cefnogaeth i'r holl weithgareddau ar gyfer Parti Ponty 2023!

Cafwyd deuddydd o fwrlwm a hwyl ym Mhontypridd, dros 350 o ddisgyblion ysgolion tref Pontypridd yn dod i'r Lido am ddim yn ystod y dydd Gwener i fwynhau mewn awyrgylch Gymreig, perfformiad llawn egni gan Tara Bandito ym Mharti Pwll Ponty, cael ychwanegu naws Gymreig i'r ParkRun llwyddiannus sydd yn y parc fore Sadwrn, bore coffi yng Nghlwb y Bont i ddysgwyr gyda Sion Tomos Owen yn dangos clipiau a sgwrsio am raglen Cynefin, diwrnod llawn gweithgareddau a pherfformiadau gan lu o ysgolion (Cymraeg ac ail-iaith) a bandiau a gig a hanner gyda Cleif Harpwood a Geraint Cynan a Catsgam yng Nghlwb y Bont ar y nos Sadwrn.

Diolch yn fawr i'n holl bartneriaid, gwirfoddolwyr, a'n noddwyr - Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Rhondda Cynon Taf, Cyngor Tref Pontypridd, Cwmni Teledu Rondo Media, Arts & Buisness Cymru - Culture Step, Trafnidiaeth Cymru a Autoparts.

Mae eich adborth yn bwysig iawn i ni wrth i ni geisio parhau i ddatblygu a thyfu'r ŵyl bwysig yma yn Rhondda Cynon Taf – https://forms.office.com/e/GLf9n1QZ96

**Ras yr Iaith:**
Cynhelir digwyddiad yn Barry Sidings ar **fore** Iau, Mehefin 22ain rhwng 10 - 11yb**.** Dilynwch wefannau cymdeithasol y Fenter am fwy o wybodaeth.

**Cyngerdd RAFT**:
Ar nos Iau Mehefin 22ain, cynhelir cyngerdd Gymraeg cyntaf gŵyl RAFT (Rhondda Arts Festival Treorchy) yng Nghapel Hermon, Treorci am 7yh.

Gwledd o Gerdd a Chân yw teitl y noson, a bydd perfformiadau gan Gôr Meibion Treorci, Côr Cwm Rhondda, Ysgol Gyfun Cwm Rhondda ac Ysgol Gynradd Gymraeg Ynyswen.
Am docynnau ewch i https://www.raft.cymru/gwledd-o-gerdd-a-chan-a-feast-of-music-and-song

**Cymanfa'r Cyhoeddi - Dydd Sul 25 Mehefin 2023**
Dewch i gymryd rhan yn Gymanfa'r Cyhoeddi yng Nghapel Tabernacl, Efail Isaf i ddathlu fod yr Eisteddfod Genedlaethol yn dod i Rhondda Cynon Taf o 3-10 Awst 2024. Cymanfa i gychwyn yn brydlon am 18:00. Arweinydd: Eilir Owen Griffiths. Mynediad £5 wrth y drws | Copïau ar gael wrth y drws. Recordir y noson ar gyfer 'Dechrau Canu Dechrau Canmol'.

**Y Cwis Mawr**
Mae'r Cwis Mawr yn dychwelyd eto eleni! Cynhelir rownd Rhondda Cynon Taf o'r cwis yn yr Hen Lyfrgell Porth ar nos Wener, 30ain o Fehefin. Cyfle i ddysgwyr a siaradwyr newydd yr ardal gymdeithasu ac ymarfer eu Cymraeg. Siôn Tomos Owen yw ein Cwis-feistr a bydd canu gyda Chôr y Dysgwyr yn ystod yr egwyl. Mae gwobrau ar gyfer y tîm buddugol a chyfle i fynd i'r rownd derfynol yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar y 5ed o Awst (tocyn diwrnod am ddim!). Croeso mawr i siaradwyr newydd a rhugl. Am fwy o wybodaeth e-bostiwch gweithgareddau@menteriaith.cymru neu cofrestrwch trwy ddilyn y linc - https://forms.office.com/e/mfy58mxdhQ

Am y newyddion diweddaraf - **Dilynwch ni!**
Gallwch chi danysgrifio i'n rhestr e-bost yma: www.menteriaith.cymru/tanysgrifio-subscribe







**Facebook:** @MenterIaithRhCT
**Twitter:** @MenterIaithRhCT
**Instagram:** @menteriaithrhct
**Gwefan:** www.menteriaith.cymru
**E-bost:** post@menteriaith.cymru
**Ffôn:** 01443 407570

# Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant

**Ymweliadau**
Mae nifer o'r dosbarthiadau wedi mwynhau mynd ar ymweliad y tymor yma'n barod. Aeth plant Blwyddyn 1 a 2 i Sain Ffagan i ddysgu am sut roedd bobl yn siopa yn y gorffennol. Aethon nhw i Siop Gwalia i gael gweld sut roedd bwyd yn cael ei gadw, sut roedd te a choffi'n cael eu pwyso a sut roedd y cynnyrch o'r siop yn cael ei gludo.






Aeth plant Blwyddyn 3 a 4 i'r Bathdy Brenhinol i ddysgu am waith a hanes y Bathdy. Cafodd y plant fynd ar daith o gwmpas y Bathdy i weld sut mae'r arian yn cael ei wneud, a chafodd y plant gyfle i wneud eu darn 50c eu hun i fynd gartref. Cawson nhw weld hen ddarnau arian a'u cymharu â darnau arian heddiw hefyd.





**Dŵr Cymru**
Daeth Caitlin o Dŵr Cymru i siarad â disgyblion Blwyddyn 5 ynglŷn â sut mae'r cwmni yn delio ag unrhyw broblemau yn y system ddŵr, er enghraifft pan fydd pibau wedi eu blocio, a sut maen nhw'n datrys y problemau hyn.





**Seiclo Blwyddyn 6**
Cafodd ddisgyblion Blwyddyn 6 gyfle i ddysgu am reolau'r ffordd fawr wrth seiclo ar yr hewlydd yn ddiweddar. Yn ffodus, roedd y tywydd yn sych bob dydd ac fe gafodd y plant brofiad gwerthfawr iawn. Diolch i'r tîm a ddaeth i'r ysgol i hyfforddi'r plant.





**Cystadleuaeth Logo y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon**
Cynhaliwyd cystadleuaeth i'r plant greu logo newydd sbon ar gyfer y GRhA. Llongyfarchiadau i Seren ar ddod yn fuddugol yn y gystadleuaeth.




**Ecosgolion**
Llongyfarchiadau i griw y Dinasyddion Doeth am ennill y faner werdd (gwobr platinwm) unwaith eto. Daeth Julie Giles o Cadwch Gymru'n Daclus i siarad â'r plant ac i gyflwyno'r faner iddynt am yr ail dro.



**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Neve ac Erin am ennill cystadleuaeth ddawnsio yn Stoke yn ddiweddar gyda'u hysgol ddawns Dance Crazy. Roedd Neve yn rhan o'r tîm o dan 8 oed ac Erin y tîm o dan 12 oed, ac mae'r ddau dîm nawr yn bencampwyr Prydeinig. Gwych ferched!



# LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

Annwyl Olygydd,
Fe hoffen ni alw ar eich darllenwyr i chwarae rhan yn Llais, y corff annibynnol cenedlaethol newydd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

**Rydyn ni'n credu mewn Cymru iachach lle mae pobl** sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu clywed a'u cydnabod**.**

Lansiwyd Llais ddechrau'r mis ac, am y tro cyntaf, mae'n cyfuno iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n disodli'r saith Cyngor Iechyd Cymuned sydd wedi chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gynrychioli barn cleifion y gwasanaeth iechyd gwladol ers hanner can mlynedd.

Mae angen gwirfoddolwyr o bob rhan o'r wlad i helpu i wneud Llais yn llwyddiant. Mae angen gwirfoddolwyr, i ymgysylltu a gwrando ar bobl eraill yn rhannu eu barn, cyn adrodd yn ôl i Llais.

Rydyn ni am glywed pob barn, ac i bob llais yng Nghymru ddylanwadu ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar bobl.

Mae angen Casglwyr Adborth Ar-lein, fydd yn chwilio fforymau a'r cyfryngau cymdeithasol am farn ar iechyd a gofal cymdeithasol, yn ogystal â Gwirfoddolwyr Ymgysylltu Cymunedol fydd yn mynd allan i ddigwyddiadau gwybodaeth ac ymgysylltu ac yn sôn wrth bobl a grwpiau cymunedol am Llais ac yn gwrando ar eu barn.

Bydd ein Gwirfoddolwyr Ymweld yn mynd i leoliadau lle mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu darparu i glywed gan y rhai sy'n eu derbyn, fel meddygfeydd teulu neu gartrefi gofal, tra bydd Gwirfoddolwyr Ymweld Rhithwir yn cwrdd ar-lein â'r rhai nad ydyn nhw'n gallu cwrdd â nhw wyneb yn wyneb.

Bydd Gwirfoddolwyr Cynrychioli Llais yn gyfforddus yn ystyried adroddiadau ac ystadegau gan sicrhau eu bod yn adlewyrchu materion a chanfyddiadau yn gywir. Byddan nhw hefyd yn dod â safbwynt defnyddwyr gwasanaeth i mewn i'r drafodaeth gyda gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i lywio a dylanwadu ar y ffordd mae gwasanaethau'n cael eu darparu.

Mae digon o gyfleoedd i'r rhai sy'n awyddus i helpu, neu sydd â diddordeb mewn gyrfa ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, neu unrhyw un sydd wedi gweithio yn y naill sector neu'r llall yn y gorffennol ac sydd â dealltwriaeth werthfawr i'w rhannu erbyn hyn. Bydd ein gwirfoddolwyr yn cysylltu â chymunedau lleol fel ein bod yn cael clywed gan lawer o wahanol bobl ac yn defnyddio'r wybodaeth yma i helpu i wneud gwahaniaeth.

Rydyn ni'n awyddus i fod yn gynhwysol – i wrando ar unrhyw un yng Nghymru sydd â barn ar ofal iechyd neu ofal cymdeithasol maen nhw'n ei dderbyn neu wedi'i dderbyn neu wedi'i brofi drwy ofal cyfaill neu aelod o'r teulu.

Mae Llais yn croesawu unrhyw gyfraniad i helpu i wneud gwahaniaeth go iawn i ofal iechyd a gofal cymdeithasol. Cysylltwch â ni: www.llaiscymru.org/

Yn gywir, Yr Athro Medwin Hughes
Cadeirydd, Llais

# Ysgol Garth Olwg

**Digwyddiad Ffyrdd Gwyrdd – Fforwm Eco**




Mynychodd griw o ddisgyblion blw 7 - 9 ddigwyddiad #ffyrddgwyrdd ar drafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol i bobl ifanc a oedd wedi'i drefnu gan Senedd Ieuenctid Cymru. Roedd hyn yn gyfle gwych i wrando ar siaradwyr gwadd o Drafnidiaeth i Gymru, Senedd Ieuenctid ac ysgolion lleol. Cymerodd y criw o ddisgyblion yr amser i drafod materion oedd yn bwysig iddyn nhw am drafnidiaeth gyhoeddus wrth ystyried cyn, yn ystod ac ar ôl Covid. Ysgrifennodd y disgyblion addewid personol i helpu gyda'r amgylchedd thrafnidiaeth gyhoeddus gyda nifer yn ystyried eu ffordd o deithio a sut i'w addasu.





**Neges gan Mr Edwards am Arolwg Estyn**
Rwy'n hynod o falch o'r ysgol ac mae hwn yn benllanw dros bedair mlynedd o waith caled i sefydlu'r ysgol arbennig hon. Rydym wedi profi fod Ysgol Garth Olwg yn gweithredu fel gwir ysgol 3-19 ac mae hyn yn destun balchder mawr. Mae'r deilliannau cadarnhaol o fewn yr adroddiad yn adlewyrchu gwaith caled ein staff ymroddgar a hefyd yn dyst i'r disgyblion sy'n gweithio'n ddiwyd o ddydd i ddydd. Cymeraf y cyfle i longyfarch y staff a'r disgyblion a hefyd i ddiolch yn ddiffuant iawn i aelodau'r corff llywodraethol am eu cefnogaeth triw ers y cychwyn. Diolch i chi rieni a gofalwyr am eich cefnogaeth yn ogystal â mawr obeithiaf y cewch foddhad wrth ddarllen yr adroddiad canmoladwy hwn.

**Llwyddiant Celf a Chrefft**
Llongyfarchiadau mawr i Lucy Thomas am ddod yn 3ydd drwy Gymru yn y gystadleuaeth ffotograffiaeth Eisteddfod yr Urdd. Rydym yn falch iawn ohonot.

**Llwyddiant llenyddol Eisteddfod yr Urdd**
Llongyfarchiadau i Nel Spanswick am ddod yn 1af drwy Gymru yng nghystadleuaeth rhyddiaith i flwyddyn 1 a 2 ac i Beca George am ddod yn fuddugol gyda'r farddoniaeth ym mlwyddyn 5 a 6. Daeth Mali Williams hefyd yn 3ydd ym mlwyddyn 12 a 13. Camp aruthrol!

**Cyngerdd Sêr y Sir**
Rhai wythnosau nôl cynhaliwyd cyngerdd arbennig i ddathlu llwyddiant plant sir Morgannwg Ganol sydd yn cynrychioli'r sir yn Eisteddfod yr Urdd.




**Parti Ponty**
Ar brynhawn Dydd Sadwrn heulog ym mis Mai perfformiodd côr yr ysgol ym Mharti Ponty. Canodd pob un yn hollol wych a diolch i chi am eich ymroddi




**Taith gerdded i fyny'r Garth**
Mae'r tywydd wedi bod yn odidog dros yr wythnosau diwethaf felly be well na thaith gerdded gymunedol Pwyllgor Ysgol Garth Olwg i fyny'r Garth.
Cafodd pawn amser wrth eu boddau ac roedd cacen fach ar ddiwedd y daith yn haeddiannol iawn.



**Trip i Cefn Mably**
I ddathlu ein thema newydd Y Fferm aeth criw o ddisgyblion Derbyn, blwyddyn 1 a 2 ar wibdaith i fferm Cefn Mably. Cawsant amser wrth eu boddau yn gweld yr holl anifeiliaid a chrwydro o amgylch y fferm. Taith fythgofiadwy iddynt.





**Taith i Barc Ynysangharad**
Cafodd disgyblion blwyddyn 3 a 4 ddiwrnod allan ym Mharc Ynys Angharad ddechrau'r tymor i ddysgu ychydig am hanes y parc a hefyd i fwynhau'r gerddi prydferth. Cafodd y plant ddiwrnod i'r brenin.



**Gŵyl Ieuenctid Cerdd**
Bu ensemble lleisiol blwyddyn 10 a chôr yr Ysgol Isaf a Chanol yn perfformio mewn Gŵyl Ieuenctid Cerdd ym Mhafiliwn Porthcawl, gan dderbyn clod am safon eu canu a'u perfformio. Da iawn chi!

# Ysgol Garth Olwg (parhad)





Gŵyl Ieuenctid Cerdd

**Taith Rygbi i Barc Rosslyn**

Cyn y Pasg roeddwn ni wedi mynd i Lundain i Barc Rosslyn ar gyfer cystadleuaeth rygbi 7 bob ochr. Arhoson ni yng ngwesty Travelodge am 2 noson. Cawsom ni frecwast hyfryd pob bore yn mwynhau yng nghwmni ein gilydd. Ar y bore cyntaf roeddwn ni wedi mynd i chwarae rygbi am tua 5 awr! Roeddwn ni wedi ennill y gêm olaf a'r sgôr oedd 25-10. Roedd Taylor Downes, Joel Bevan, Gethin Duggan ac Osian Williams wedi sgorio. Wedyn yn y nos aethom ni i fwyty pitsa gyda'r bechgyn. Y bore nesaf aethon ni i wylio'r Harlequins yn erbyn y Saracens yn stadiwm Tottenham cyn teithio am adref ar ôl y gêm - gwnaethom ni fwynhau pob eiliad! Noah Davey.





**Cydweithio gydag Ysgol Blessed Carlo Acutis**

Rydym wedi bod yn cydweithio gydag Ysgol Blessed Carlo Acutis eleni i hybu Cymreictod. Aethom ni atyn nhw ym mis Ionawr i ddysgu Gemau Buarth i ddisgyblion y Criw Cymraeg fel eu bod nhw yn medru dysgu'r gemau i weddill disgyblion yr ysgol. Daeth disgyblion Criw Cymraeg yr adran uwchradd atom ni wedyn ym mis Mawrth i weld sut mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gweithredu. Cawsant gyfle i gymryd rhan mewn gwers goginio yn y Gymraeg a gwnaeth disgyblion blwyddyn 10 Garth Olwg eu helpu. Roedd y bara yn arogli a blasu'n fendigedig!










**Derbyn Gwobr Arian y Siarter Iaith**

Llwyddodd yr Ysgol i ennill Gwobr Arian y Siarter Iaith llynedd ond cynhaliwyd y seremoni i wobrwyo ysgolion yng Nghanolfan yr Holl Genhedloedd yng Nghaerdydd ar ddiwedd mis Mawrth eleni. Cawsom fore wrth ein bodd yn dathlu llwyddiant a gwaith caled ein Pwyllgor Cymreictod a chafwyd geiriau ysbrydoledig gan Huw Stephens am bwysigrwydd yr iaith Gymraeg.




**Llwyddiant ar y trac**

Llongyfarchiadau i Seb Williams, Blwyddyn 10 ar lwyddo i ennill y fedal arian yng Nghystadleuaeth Naid Driphlyg athletau Cymru o dan 17. Gwych Seb!



Llongyfarchiadau hefyd i Rhys Griffin, Blwyddyn 11 ar lwyddo i gipio'r 3ydd safle yng Nghynghrair Cyclocross Cymru. Da iawn ti Rhys!



**Taith yr Adran Gymraeg a Hanes i Wlad Belg**

Ar ddiwedd y tymor diwethaf, aeth criw o Flwyddyn 9 ar daith i Wlad Belg er mwyn dysgu am hanes y Rhyfel Byd Cyntaf ac ymweld â Bedd Hedd Wyn. Dysgwyd llawer ar y diwrnod cyntaf yng Ngwlad Belg wrth ymweld â Mynwent Tyne Cot, Fferm Essex, Langemark, Bedd Wyn ac Amgueddfa Passchendaele. Roedd yn ddiwrnod hynod o ddiddorol ac roedd y tywysydd yn adrodd hanes yr ymladd ac amodau'r milwyr mewn modd arbennig. Ar ôl swper, cawsom y cyfle i fynd i weld seremoni'r Last Post yn Menin Gate - roedd yn seremoni deimladwy iawn. Roeddem yn medru gweld Menin Gate o ffenest y gwesty a oedd yn gwneud lleoliad ein harhosiad yn un gwych.

Ar yr ail ddiwrnod, aethon ni i Barc Thema Bellewaerde ac nid oedd ciwiau o gwbl i'r reidiau felly cafwyd diwrnod llawn hwyl ym mynd ar bob reid sawl gwaith! Roedd y baguettes, brecwast a'r swper yn flasus iawn ac roeddwn ni'n ffodus i beidio cael dim ciwiau o gwbl yn Dover y ffordd i Wlad Belg ac adref! Taith fythgofiadwy!







# Ysgol Llanhari

**Diwrnod Oes Fictoria**

Cafodd disgyblion blwyddyn 2, 3 a 4 brofiad tra gwahanol yn yr ysgol cyn gwyliau'r Pasg. Daethant i'r ysgol wedi gwisgo fel plant o Oes Fictoria. Roedd rhaid i'r athrawon wirio eu dwylo a'u dillad cyn iddynt ddod i'r dosbarth, roedd rhaid iddynt eistedd gyda'u cefnau yn syth a chodi ar eu traed bob tro daeth athro i mewn i'r ystafell ddosbarth. Yn ystod y dydd cawsant gyfle i ymarfer llawysgrifen, darllen ar goedd ac adrodd tablau. Cawsant hefyd gyfle i wneud 'drils', cyn gwahanu'n ferched a bechgyn; bechgyn i wneud gwaith coed a'r merched i wnïo.







**Luke Fletcher**

Rydym wrth ein boddau bod Luke Fletcher wedi dewis ei gyn-ysgol, Ysgol Llanhari, fel y lle mae e am blannu ei goeden fel rhan o ymgyrch Ymddiriedolaeth Genedlaethol 'Gwledd y Gwanwyn'. Ymunodd pum aelod o'r clwb garddio ag ef i blannu'r goeden. Edrychwn ymlaen at weld y goeden yn tyfu a ffynnu.



**Colin Pari / Mr Buchanan**

Diolch yn fawr i Mr Buchanan a Sara o Uned Achosion Brys i Blant, Ysbyty Prifysgol Cymru a Steff o Ambiwlans Awyr Cymru am y profiad gwych o drafod eu gwaith gyda disgyblion o






flwyddyn 5 a 6 fel diweddglo i'w thema 'Argyfwng 999'. Cawsant gyfle i weld pa fath o offer sy'n cael ei ddefnyddio a thro yn gwisgo peth o'r offer. Braf iawn oedd croesawu Colin Pari nôl atom ni am y diwrnod.

**Trip Sgïo**

Cafodd y disgyblion amser anhygoel yn sgïo yn Awstria, digonedd o chwerthin a sgïo. Am brofiad bythgofiadwy i'n disgyblion. Diolch i bawb am yr holl drefniadau.






**Llangrannog**

Aeth disgyblion dosbarth Gwennol a Barcud i Langrannog diwedd Ebrill. Cawsant amser gwych yn gwneud yr amrywiaeth o weithgareddau sydd ar gael yno, bwyta hufen iâ ar y traeth ac roeddent wrth eu boddau. Roeddynt yn ffodus iawn fod yr haul wedi dod allan i wenu arnynt.







**Normandi**

Aeth disgyblion blwyddyn 8 a 9 ar fws o'r ysgol ar ôl gorfod codi yn ystod oriau mân y bore i deithio dros nos i gyrraedd Portsmouth ar ddechrau'r daith i Normandi. Cawsant gyfle i fynd i'r boulangerie, i wneud ychydig bach o siopa, ymweld â Le Mont-St Michel, cael amser cofio yn Arromanches a Bayeux ac wrth gwrs cyfle i wella eu sgiliau Ffrangeg.





**Cynllun Cyfaill**

Diolch yn fawr i ddisgyblion 7, 8 a 9 sydd wedi ymgeisio i fod yn rhan o gynllun cyfaill yr ysgol. Mae'r disgyblion cynradd yn gyffrous iawn i gyd-weithio gyda chi yn wythnosol.



**Ymweliad Siwan**

Pleser oedd gwahodd y gantores a chyn-ddisgybl Siwan Henderson, sydd yn aelod o'r grŵp 'Welsh of the West End', i'r ysgol fel sbardun i thema dosbarth Drudwy, Cnocell y Coed a Tylluan drwy gynnal gweithdy canu. Roedd pob un wrth eu boddau yn canu gyda Siwan.



**Chwaraeon**

Diolch i YGG Bronllwyn am ddod i'r ysgol i gystadlu mewn cystadleuaeth pêl droed a phêl-rwyd gyda'n disgyblion. Braf oedd gweld wynebau'r plant yn mwynhau'r gemau a chystadlu. Ymdrech arbennig gan bawb.

Parhad tudalen 21 >

## Ysgol Llanhari (parhad)





**Gwaith Celf a Chrefft yr Urdd**
Llongyfarchiadau mawr i bawb a fu’n llwyddiannus yng nghystadleuaeth Celf a Chrefft yr Urdd, Morgannwg Ganol. Edrychwn ymlaen at weld y gwaith yn cael ei arddangos yn yr Eisteddfod dros y Sulgwyn.

**Ysgol Masnach Deg**
Llongyfarchiadau mawr i Mrs Owen a’r tîm am ennill gwobr Masnach Deg yn ddiweddar.



**Parti Ponty**
Diolch yn fawr i gôr yr Adran Gynradd ac Uwchradd am berfformio ym Mharti Ponty eleni. Braf oedd cael y cyfle i berfformio ar lwyfan mawr a chyfle i bawb i fwynhau’r heulwen a’r atyniadau ym Mharc Ynys Angharad. Diolch i Fenter Iaith Rhondda Cynon Taf am yr holl waith trefnu o flaen llaw.





**Diwrnod agored**
Cafwyd diwrnod arbennig yn yr adran gynradd pan groesawyd y rhieni i’r dosbarthiadau i weld eu plant yn dysgu ac i edrych ar yr holl waith maent wedi cwblhau.







**Clwb garddio**
Cafwyd prynhawn arbennig yn y clwb garddio lle'r oedd Mr Williams wedi helpu’r disgyblion i beintio bocsys adar ac ystlumod i’n hardal agored tu allan i’r ysgol.



**Diwrnod Seren a Sbarc**
Cafwyd diwrnod arbennig yn dathlu Diwrnod Seren a Sbarc. Bu’r Dreigiau Doeth wrthi’n paratoi cystadlaethau ar gyfer pob dosbarth yn ystod y bore ac yna yn y prynhawn, mwynheuodd y disgyblion sesiwn gemau buarth a disgo! Diolch Dreigiau Doeth!



**Llongyfarchiadau**
Pleser fu dathlu diwedd cyfnod gyda disgyblion blwyddyn 11 a 13 a braf oedd cyflwyno gwobr Goffa Rhys Rubery i Charlie Lanyon (bl11) a Gwobr Goffa Merfyn Griffiths i Sonny Williams (bl13).
Llongyfarchiadau iddyn nhw!






## GWYDDOCH CHI... ?

Estynnwn groeso twymgalon i bawb sy`n ymweld ag Aberdâr ar gyfer Cyhoeddi Eisteddfod Rhondda Cynon Taf. Gobeithio y cewch fwynhâd wrth ymweld â thref y mae`r Eisteddfod Genedlaethol wedi ymweld â hi dair gwaith yn ei hanes, yn 1861, 1885 ac 1956. Fel ‘*Brenhines y Bryniau’* y`i hadwaenir gan rai, a ‘*Sweet `Berdâr’* gan eraill, tra bod eglwys fawr Elfan Sant, sy`n amlwg o bob rhan o`r dre, wedi`i hadnabod ers blynyddoedd fel ‘*Cadeirlan y Cymoedd’*. Ond ar Fehefin 24ain 2023, ein braint yn Aberdâr yw bod yn westai i gyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol 2024.

Dywedir taw`r Arglwydd Rhys a gynhaliodd yr eisteddfod gyntaf yn 1176, yng nghastell Aberteifi. Wedi hynny. er i`r traddodiad barhau ar lawr gwlad, bu cryn ddirywiad yn ei hanes tan ddiwedd y 18fed ganrif. Dan ddylanwad cymdeithasau Cymraeg Llundain yr adfywiwyd y traddodiad eisteddfodol, fel arwydd o urddas a hynafiaeth y Cymry. Dyma pryd hefyd y bu i Iolo Morgannwg sefydlu defodau Gorsedd y Beirdd. Eisteddfodau lleol neu ranbarthol oeddynt, at ei gilydd, tan y flwyddyn 1861, pan gynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol swyddogol gyntaf.

Er mwyn rhoi blas ar hanes a chefndir y dre, dyma rai ffeithiau a chwestiynau fel tamaid i aros pryd:

WYDDOCH CHI…….taw yn Aberdâr y cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol fodern gyntaf yn 1861? Y fangre amdani oedd Neuadd y Farchnad, gan fod storm annisgwyl wedi dymchwel y babell fawr a baratowyd ar ei chyfer ar dir comin ‘Hirwaun Wrgant’, lle saif Parc Aberdar heddiw.

WYDDOCH CHI……taw awdl Mathonwy Hughes yn Eisteddfod Genedlaethol Aberdâr yn 1956 yw`r unig awdl ddigri erioed i ennill Coron yr Eisteddfod?

WYDDOCH CHI…..taw Keir Hardie oedd yr Aelod Seneddol cyntaf yng Nghymru i`w ethol i San Steffan fel cynrychiolydd Llafur yn 1900 – a hynny dros etholaeth Aberdâr a Merthyr. Ceir cerflun ohono yng ngerddi`r ‘Rock’, tu ôl i`r Llyfrgell.

WYDDOCH CHI…..taw Gruffydd Rhys Jones (Caradog), a aned yn Nhrecynon - ac yn sgil llwyddiannau ei Gôr Mawr yn y Palas Crisial, Llundain, yn 1872 ac 1873 - a ennillodd i Gymru yr enw o fod *yn ‘Wlad y Gân’*? Ceir cofgolofn hardd iddo yng nghanol y dre gan Syr William Goscombe John.

WYDDOCH CHI…..taw ymfudwyr o Aberdâr oedd y garfan fwyaf niferus ar fwrdd y ‘Mimosa’ pan hwyliodd i Batagonia yn 1865? Fe`i harweiniwd gan y Abraham Matthews, Gweinidog lleol, ddaeth yn adnabyddus, maes o law, fel ‘*Esgob y Wladfa’*. Ceir coflech iddo ar un o gerrig yr Orsedd ym Mharc Aberdâr, a chaffadwriaeth debyg i`r fintai a hwyliodd ar wal capel Siloa, ger y Llyfrgell.

Parhad tudalen 22 >

# Ysgol Evan James

**Wythnos Cerdded i'r Ysgol**
Diolch yn fawr i'r Cyngor Eco am drefnu Wythnos Cerdded i'r Ysgol y mis hwn. Enillodd y plant a gerddodd i'r ysgol 10 pwynt Dojo ac yn wir, cerddodd ambell un dros dair milltir bob dydd. Mae'r Cyngor Eco'n gobeithio'n fawr y bydd y disgyblion yn parhau i gerdded os gallant.

**Cyngerdd Sêr y Sir**




Cafodd Gwenno o Flwyddyn 6 gyfle i ganu o flaen cynulleidfa fawr yng Ngholeg Penybont cyn iddi gystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanymddyfri. Fe fydd yn canu unawd yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a hoffem, fel ysgol, ddymuno'n dda iddi.

**Parti Ponty**
Roedd yr haul yn gwenu ar ddydd Sadwrn, Mai 13eg pan aethom i ganu ym Mharti Ponty ym Mharc Ynysangharad. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi. Roedd y llwyfan yn orlawn ac fe ganodd y plant yn wych. Uchafbwynt Parti Ponty i ddisgyblion Dosbarth Pwyll a Rhiannon oedd cael mynd i nofio yn y Lido. Nid oeddent am adael y pwll. Hwyl a sbri!

**Gwasanaethau Dosbarth**
Mae disgyblion Dyffryn Diogel (Cam Cynnydd 3) wedi bod yn brysur yn paratoi ar gyfer eu gwasanaethau dosbarth. Erbyn hyn, mae pob dosbarth wedi perfformio'u gwasanaeth o flaen eu rhieni cyn cael paned a chlonc.

**Hwyl fawr Mr Jones**





Mae Mr Jones, athro Dosbarth Branwen yn gadael Ysgol Evan James ar ddiwedd yr hanner tymor hwn cyn i ni groesawu Mrs O'Halloran yn ôl yn dilyn cyfnod mamolaeth. Hoffem ddiolch yn fawr i Mr Jones am ei holl waith. Fe fyddwn yn gweld ei eisiau'n fawr ac yn sicr, byddwn yn gweld eisiau ei berfformiadau arbennig ar y gitâr. Pob lwc i chi yn eich swydd newydd.



**Mabolgampau**
Cynhaliwyd mabolgampau'r ysgol ychydig yn gynharach eleni oherwydd y gwaith adnewyddu ym Mharc Ynysangharad. Unwaith eto, roedd yr haul yn gwenu ac fe gawsom ddiwrnod gwych. Gwnaeth pawb eu gorau glas ac fe fwynheuodd y disgyblion oll. Diolch i Mrs Lockett am drefnu'r diwrnod. Diolch hefyd i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon, Ffrindiau Evan James, am drefnu a chynnal y raffl.

**Gweithdai gyda Siôn Tomos Owen**



Bu Dosbarth Bendigeidfran yn brysur iawn ar ddiwedd yr hanner tymor. Treuliodd yr artist a'r bardd o'r Rhondda, Siôn Tomos Owen, dau ddiwrnod yn y dosbarth yn paratoi gwaith celf a barddoniaeth yn barod i'w arddangos yn y parc. Profiadau bythgofiadwy.

**Gwasanaethau gyda Charlotte**
Mae Charlotte, o Eglwys Santes Catrin yn ymwelydd cyson yn ein hysgol. Y mis hwn, fe glywodd disgyblion Cwm Clyd stori Adda ac Efa mewn gwasanaeth hyfryd.

**Llwyddiant Celf a Chrefft**
Llongyfarchiadau i nifer o ddisgyblion yr ysgol am gynhyrchu gwaith celf a chrefft ardderchog yng nghystadleuaeth yr Urdd. Daeth Mari Davies (Blwyddyn 4) yn gyntaf, Alec Edwards (Blwyddyn 2) yn ail a Twm Geraint (Blwyddyn 5) yn drydydd yn y rhanbarth. Gwych blant!

**Teithiau i barciau lleol**
Mae Dosbarth Bendigeidfran a Brawnwen wedi manteisio ar y tywydd braf ac wedi bod i ddau o barciau gorau'r ardal. Eu thema yw "Y Goedwig Wyllt" ac aethant i Barc Ynysangharad ac i Barry Sidings i weld byd natur ar ei orau.

**Ymweliadau gan yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân**
Y mis hwn, daeth yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân i'r ysgol i siarad am ddiogelwch gyda phob dosbarth. Rydym wrth ein boddau'n gwahodd gweithwyr allweddol ein cymuned i'r ysgol.

## GWYDDOCH CHI... ? (Parhad)

**WYDDOCH CHI…..** taw yng Nghwmbach, pentref cyfagos arall, y sefydlwyd cangen gyntaf y Gymdeithas Gydweithredol (CO-OP) yng Nghymru, yn 1860?
WYDDOCH CHI….. bwy sgoriodd unig gais Cymru yn y gêm lwyddiannus yn erbyn y Crysau Duon yn 1905? Edward Morgan oedd yr arwr cenedlaethol bryd hynny, a cheir ei hanes, ynghyd â hanes arwyr eraill y byd chwaraeon, yn Oriel yr Enwogion, Canolfan Hamdden Sobell, gerllaw.
WYDDOCH CHI…. taw yng nghapel Bethania Aberdâr y tybir i`r Gymanfa Ganu swyddogol gyntaf gael ei chynnal, yn 1859 dan arweiniad Ieuan Gwyllt? Mae`r capel bellach wedi`i ddymchwel, ond safai gyfochr â`r bwyty Eidalaidd newydd, 'AMORE', nid nepell o gerflun Caradog.
WYDDOCH CHI…...taw Aberdâr oedd un o ganolfannau pwysicaf y wasg Gymraeg yn y 19eg ganrif? Yma y cyhoeddwyd '*Y Gwron Cymreig'* (1854), '*Y Glwadgarwr'* (1858), '*Y Gweithiwr'* (1858), '*Tarian y Gweithiwr'* (1873, neu`r '*Darian'* wedi 1914), ynghyd â nifer o gyhoeddiadau enwadol.
WYDDOCH CHI……pam bod cynifer o strydoedd y dre, ac ambell i dafarn, yn dangos cysylltiad â Chadeirlan Caerloyw? (Ceir yma Dean St, Canon St, Gloucester St, Tafarn y Gloucester.) Y rheswm yw bod Huw le Despencer, arglwydd Normanaidd Morgannwg yn y 14edd ganrif, wedi cyflwyno trethi eglwysig y dre i Abaty Tewksbury. Yna, adeg cau`r mynachlogydd yng nghyfnod Harri`r Vlll, fe`u trosglwyddwyd i Gadeirlan Caerloyw.
WYDDOCH CHI…..taw yn Aberdâr bu James James (Iago ab Ieuan) fyw, cyfansoddwr alaw ein hanthem genedlaethol. Fe`i coffheir gan enw`r dafarn Weatherspoon yng nghanol y dre, a chan faen coffa ochr draw`r ffordd i`r dafarn.
WYDDOCH CHI…..beth yw`r ddolen gyswllt rhwng y canlynol: Alun Lewis, y llenor a`r bardd; ei ewythr, Timothy Lewis, Darllenydd yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth; aelodau gwreiddiol grwp y Stereophnics; y cricedwr enwog John Derrick; Idwal Rees, prifathro sylfaenol Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr, 1949; a golygydd presennol y papur hwn, Susan Jenkins? Fe`u ganed bob un yng Nghwmaman, un arall o bentrefi`r fro!
WYDDOCH CHI……fod cofeb yn Llyfrgell Aberdâr yn coffhau y saith o Gwm Cynon fu`n ymladd gyda`r Frigâd Ryngwladol yn erbyn Ffasgwyr Franco yn Rhyfel Cartref Sbaen 1936-1939?

Parhad tudalen 23 >

# Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau

Mae Bl.2 wedi bod yn casglu sbwriel yn y gymuned.








Cawsom ddisgo ar iard yr Ysgol i ddathlu Diwrnod Seren a Sbarc.





Aeth Blwyddyn 5 i Barti Pwll Ponty a chawsom amser gwych!





Aeth Blwyddyn 6 i Gomin Tynant i ymchwilio pa anifeiliaid oedd yn byw yn yr afon ac effaith llygredd dwr yn y Gymuned.






Mae dosbarth Jac Do wedi bod yn ymweld ag Ysgol Ty Coch




## GWYDDOCH CHI... ? (Parhad)

Dyna i chi 13 cwestwin/sylw - un i bob un o hen siroedd Cymru yn dilyn y Ddeddf Uno (neu un i bob un o gerrig yr Orsedd). Gobeithio y cewch eich symbylu i olrhain rhagor o hanes y dre, gan ymweld ag Amgueddfa Cwm Cynon, ar hen safle Gwaith Haearn y Gadlys - ger archchfarchnad TESCO. Gwnewch yn fawr, hefyd, o adnoddau`r Llyfrgell, ger capel Siloa, a chofiwch ymweld â chanolfan dreftadaeth newydd eglwys Elfan Sant yng nghanol y dre. Os ydych am fwrw`r Sul yma, beth am ymuno â chynulleidfa eglwys St Ffagan, Trecynon, lle gweinyddir y Cymun Bendigaid yn Gymraeg am 4.30pm ar Fehefin 25ain? Dyma un o`r ychydig eglwysi yn esgobaeth Llandaf sy`n dal i gynnal gwasanaeth misol Cymraeg. Cewch groeso twymgalon, beth bynnag eich traddodiad.

**Hywel Davies**

Diolch i Jo a Nicola o Ddŵr Cymru am ddod i arwain gwasanaeth ysgol gyfan a gweithdy gyda Bl 2 er mwyn i ni ddysgu sut gallwn ni arbed dŵr.




Daeth Mick Antoniw mewn i drafod yr Amgylchedd a deddfau newydd ar y gweill gyda Blynyddoedd 5 a 6



# Ysgol Creigiau

**Llwyddiant Sgïo**
Cystadlodd Emrys, Conor, Alys, Eiry, Wil a Gwen yng nghystadleuaeth ‘Snowsport’ Cymru a gynhaliwyd yng Nghanolfan Sgïo Caerdydd yn ddiweddar. Cawsant lawer o hwyl ac ar ddiwedd y digwyddiad dyfarnwyd y safle 1af i Ferched dan 10 i Alys, 3ydd i Ferched dan 10 i Eiry, 2ail i Fechgyn dan 12 i Emrys a 3ydd i Fechgyn dan 12 i Conor. Gwych - rydyn ni'n falch iawn o bob un a gystadlodd.



**Gŵyl Rygbi**
Ddydd Gwener, 5ed o Fai, fe gymerodd disgyblion Blwyddyn 6 ran mewn Gŵyl Rygbi tag/cyffwrdd yng Nghlwb Rygbi Pentyrch. Trefnwyd y digwyddiad gan ein Swyddogion Hwb URC, Mac Williams a Cobi Flowers. Roedd y disgyblion wedi mwynhau chwarae yn erbyn timoedd eraill o Ysgolion Clwstwr Plasmawr a Radur. Gwych bawb!



Blwyddyn 6 yn mwynhau'r Ŵyl Rygbi

**Cyngerdd PBuzz**
Fore Gwener, 5ed o Fai, cafodd Dosbarth 3 a Class 3 eu gwers PBuzz olaf gan Gareth Roberts o Wasanaeth Cerdd Caerdydd. Maent wedi derbyn set o chwe gwers ers mis Mawrth. Dangoson nhw eu doniau a'u sgiliau cerddorol mewn perfformiad o flaen disgyblion eraill yr ysgol. Gwaith gwych Blwyddyn 3!



**Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth**
Aeth Emmy, Class 6, i seremoni wobrwyo yng Ngwesty'r Hilton yng Nghaerdydd i dderbyn tystysgrif arbennig am ddod yn ail yng Nghystadleuaeth Greadigol 2023 Dangoswch y Cerdyn Coch i Hiliaeth. Cafodd ddiwrnod i’r brenin! Gwych Emmy - mae dy waith celf yn anhygoel!




**Llwyddiant Rygbi**
Chwaraeodd Freya, Dosbarth 6, yn Nhîm Rygbi Ysgolion Caerdydd yn Heol Sardis, Pontypridd. Enillodd ei thîm Gwpan Les Spence yn erbyn Ysgolion Pontypridd. Gwych Freya - rydym yn hynod falch o dy lwyddiant.




**Ffau’r Dreigiau Creigiau**
Fe gyflwynodd disgyblion Dosbarth 6 a Class 6 eu Tyrbinau Gwynt i ddisgyblion Dosbarth 5 a Class 5 ar ffurf Ffau’r Dreigiau. Gwrandawodd Dreigiau Blwyddyn 5 yn astud ar y cyflwyniadau er mwyn dewis y dyluniad buddugol. Ar ôl trafodaeth hir penderfynodd disgyblion Class 5 fuddsoddi eu harian gydag 'Energy X Renewables' a gynlluniwyd gan Mahad, Callum-Rhys, Jacob a Matthias. Penderfynodd Dosbarth 5 fuddsoddi eu harian gyda 'Mr Gwyntog' a ddyluniwyd gan Ioan, Twm a Jack. Cafodd y timau buddugol eu canmol am eu syniadau dylunio unigryw a'u hysbyseb perswadiol, manwl. Llongyfarchiadau i holl ddisgyblion



Blwyddyn 6 am baratoi cyflwyniadau gwych a llongyfarchiadau arbennig i'r ddau dîm buddugol.

**Theatr y Sherman**
Ddydd Llun, 22ain o Fai, ymwelodd disgyblion Dosbarth 4 a Class 4 â Theatr y Sherman. Fe gymeron nhw ran mewn gweithdai amrywiol a chawsant daith o amgylch y theatr. Roedd pawb wedi mwynhau'r profiad newydd hwn yn fawr.



Dosbarth 4 yn Theatr y Sherman

**Eisteddfod yr Urdd**
Pob lwc i Raffi, Eddie, Elsie, yr Ymgom i Ddysgwyr a’r Parti Llefaru i Ddysgwyr a fydd yn cynrychioli’r ysgol a Chaerdydd a’r Fro yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a gynhelir yn



Pob lwc yn yr Eisteddfod!

Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin, yn ystod hanner tymor y Sulgwyn.

**Diwrnod Seren a Sbarc**
Ymunon ni ag ysgolion eraill ar draws Cymru i ddathlu ‘Diwrnod Seren a Sbarc’. I ddathlu'r digwyddiad gwisgon ni ddillad coch, gwyn a gwyrdd a chawsom hwyl a sbri yn ystod y dydd.

